Arolygiaeth Prawf EF

# Adroddiad Blynyddol 2022: arolygu gwasanaethau troseddau ieuenctid

MEHEFIN 2023

Arolygiaeth Prawf EF

Gwasanaethau troseddau ieuenctid a phrawf ansawdd uchel sy'n newid bywydau pobl er gwell

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw'r arolygydd annibynnol ar gyfer gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Ni sy'n gosod y safonau sy'n taflu goleuni ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn. Mae ein harolygiadau, adolygiadau, ymchwil ac adnoddau ar ymarfer effeithiol yn darparu canllawiau a dyfarniadau awdurdodol ar sail tystiolaeth. Defnyddiwn ein llais i wthio am newid systemau, gyda ffocws ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu'n arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau.

# Cynnwys


**Trosolwg y Prif Arolygydd ........ 4**

Y defnydd cynyddol o gosbau allan-o-lys ........ 4

Ansawdd y gwaith achos ........ 5

Ein sgoriau ........ 6

Gwasanaethau i blant achosion YJS ........ 6

Adsefydlu plant sy'n gadael y carchar ........ 7

**Ffeithiau cyd-destunol 2021/2022 ........ 9**

Ein harolygiadau ieuenctid 2021/2022 ........ 10

**Y tirwedd cyfiawnder ieuenctid yn 2022 ........ 15**

**Trosolwg ar berfformiad arolygu 2021/2022 ........ 16**

**Effaith yr arolygiadau ........ 18**

**Argymhellion a wnaed mewn adroddiadau arolygu yn 2022 ........ 20**

Crynodeb o themâu allweddol o ddadansoddi'r argymhellion ........ 20

**Darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid fel sefydliad ........ 21**

Llywodraethu ac arweinyddiaeth ........ 21

Staff ........ 22

Partneriaethau a gwasanaethau ........ 26

Gwybodaeth a chyfleusterau ........ 28

**Goruchwylio gorchmynion llys ........ 30**

Crynodeb o'r canfyddiadau ........ 30

Asesu ........ 32

Adnabod pryderon am ddiogelwch plant ........ 34

Cynllunio ........ 35

Gweithredu a darparu ........ 36

Adolygu ........ 37

Trefniadau aml-asiantaethol amddiffyn y cyhoedd ........ 38

**Cosbau allan-o-lys......40**
Crynodeb o'r canfyddiadau ......40
Sut mae ardaloedd yn penderfynu ar gosbau allan-o-lys ......41
Safonau arolygu: cosbau allan-o-lys ......42
Asesu ......43
Cynllunio......45
Gweithredu a darparu ......46
**Addysg, hyfforddiant a gwaith......49**
**Adsefydlu ......52**
**Amrywiaeth......56**
Plant mewn gofal......58
Tarddiad ethnig ......59
Cyfranogiad plant a'u rhieni neu ofalwyr ......60
**Atodiad 1: Terminoleg......63**

Cofiwch drwy gydol yr adroddiad hwn fod enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2023

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi bod gan ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EM
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation
ISBN: 978-1-915468-90-1

# Trosolwg y Prif Arolygydd



Hwn fydd y pedwerydd a'r adroddiad blynyddol olaf gen i ar arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, felly mae'n gyfle i fyfyrio ar y pedair blynedd diwethaf ac arolygiadau 2021/2022.

Dw i'n falch o ddweud ei fod yn adroddiad positif ar y cyfan. Dyfarnwyd mwyafrif sylweddol o'r gwasanaethau a arolygwyd y llynedd fel 'Da' neu 'Rhagorol' a gwelsom welliant mawr yn ein sgoriau ar gyfer ansawdd y gwaith cosbau allan-o-lys ers 2019. Mae ein ffocws ar adsefydlu ers 2021 wedi dwyn budd. Mae plant bellach yn derbyn cymorth gwell ar ôl gadael y carchar a gwelsom welliant sylweddol yn y gwasanaethau a ddyfarnwyd yn 'Anfoddhaol' o'r blaen, fel yn Surrey a Chaerdydd, ar ôl mynd yn ôl i'w hail-arolygu. Mae'r model aml-asiantaethol a ymgorfforir ym mhob YJS a'u byrddau rheoli wedi parhau i fod yn gryfder mawr drwy adegau pur anodd. Hefyd, mae amrediad a dyfnder y gwasanaethau arbenigol y gall gwasanaethau YJS eu darparu i'r plant yn eu llwythi achosion, o therapi iaith a lleferydd i gymorth seicolegol a lles addysg, yn parhau i wneud argraff dda.

Mae wedi bod yn gyfnod o her aruthrol a newid sylweddol i rai sy'n gweithio mewn gwasanaethau lleol. Ar ddechrau pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, dim ond naw mis ar ôl i mi ddod yn Brif Arolygydd, gorfodwyd pob gwasanaeth i lwyr addasu eu model darparu dros nos gan arwain at newidiadau anferth i'r ffordd yr oedd partneriaid lleol, fel y llysoedd ieuenctid a gwasanaethau plant, yn gweithio. Er bod y rhan fwyaf yn ôl i ddarparu fel o'r blaen, mae rhai problemau'n parhau (er enghraifft o ran ôl-waith sylweddol gan Lys y Goron ar gyfer yr achosion ieuenctid mwyaf difrifol). Ond mae rhai o fesurau arloesol mwy positif cyfnod y pandemig, er enghraifft cyfarfodydd aml-asiantaethol rhithiol dros MS Teams neu lwyfannau tebyg, wedi parhau.

Mae'r pandemig hefyd fel pe bai wedi cyflymu rhai o'r tueddiadau cyfiawnder ieuenctid a fu'n amlwg yn y deng mlynedd diwethaf. Er enghraifft, am y flwyddyn tan ddiwedd Mawrth 2022, gwelodd y llysoedd ieuenctid 50% yn llai o achosion ar gyfer dedfrydu o'i gymharu â 2017/2018; roedd rhybuddiadau gan yr heddlu hefyd i lawr 52%. Ac ar gyfartaledd, roedd y boblogaeth ieuenctid dan glo hefyd i lawr 49% i ddim ond 454. Mae cyfran lai o hyd bellach o blant yn cael eu prosesu drwy brosesau cyfiawnder troseddol ffurfiol, naill ai drwy'r llysoedd neu rybuddiad amodol / rhybuddiad heddlu statudol (dim ond 13,800 o blant a dderbyniodd ddedfryd neu rybuddiad heddlu drwy Gymru a Lloegr yn 2021/2022 o'i gymharu â bron i 70,000 10 mlynedd yn ôl).

## Y defnydd cynyddol o gosbau allan-o-lys

Mae hyn yn adlewyrchu tuedd gynyddol i blant dderbyn cosb anffurfiol gan yr heddlu a / neu'r YJS, gyda 'dedfrydau cymunedol' (dedfrydau anffurfiol a gytunir ar-y-cyd fel arfer gan baneli'n cynnwys yr heddlu a staff troseddau ieuenctid) bellach yn cyfrif am y rhan fwyaf o lawer o'r achosion YJS a arolygwn.

O ystyried pwysigrwydd diymwad y prosesau anffurfiol hyn, mae'n siomedig iawn bum mlynedd ar ôl i ni argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi data cenedlaethol ar nifer ac effeithiolrwydd y math hwn o gosb allan-o-lys yn ein hadroddiad thematig ar y pwnc yn 2018, nad yw'r wybodaeth ar gael o hyd. Y gwir o hyd yw bod y dull mwyaf cyffredin o ddelio â phlant a gyflawnodd drosedd yn parhau i beidio â chael ei fesur a'i werthuso. Nid oes data cenedlaethol na lleol dibynadwy ar ba gyfran o blant sy'n cwblhau'r

ymyriadau (gwirfoddol) a argymhellir gan baneli allan-o-lys lleol neu sy'n dod i sylw'r YJS lleol eto ar ôl cyflawni troseddau pellach. Yn fy marn i, mae data a gyhoeddir ar blant sy'n newydd-ddyfodiaid ac yn aildroseddu – sydd ddim ond yn cyfri'r achosion sy'n mynd i'r llys neu'n cael rhybuddiad amodol / rhybuddiad heddlu ffurfiol – bellach yn gwbl ddiystyr fel dull o fesur y wir gyfradd droseddu leol gan bobl ifanc, neu o berfformiad yr YJS.

Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi ariannu ymchwil i ddedfrydau cymunedol gan Brifysgol Metropolitan Manceinion (MMU), a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.[1] Casglodd fod amrywiad cenedlaethol sylweddol yn y modd y darperir y dedfrydau hyn, gan gynnwys amrywiadau yn y troseddau sy'n gymwys, y math o ymyriadau a gyflwynir, a thros ba gyfnod o amser. Er y gwelsom duedd galonogol yn ein harolygiadau i heddluoedd hysbysu'r YJS lleol o'r holl ddedfrydau cymunedol ar eu llyfrau, mae nifer y plant sy'n derbyn un ddedfryd gymunedol ar ôl y llall a heb gael eu huwchgyfeirio'n bryder parhaus.

Gwelsom hefyd ddefnydd cynyddol gan yr heddlu o Ganlyniad 22[2] fel eu penderfyniad anffurfiol dewisol. Fodd bynnag, mae ymchwil gan MMU yn awgrymu diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng Canlyniad 22 a gorchmynion cymunedol, ac amrywiadau o ran a yw'r diffyg cydweithredu â'r ymyriadau a gynigir drwy'r opsiwn hwn yn arwain at erlyn wedyn (bwriad gwreiddiol y math hwn o benderfyniad) os nad yw plentyn wedi ymgysylltu â'r ymyriadau neu'r gweithgareddau arallgyfeirio a gynigiwyd.

## Ansawdd y gwaith achos

Yn ffodus, o ystyried pwysigrwydd cynyddol y prosesau allan-o-lys hyn, dengys ein data arolygu lleol rai gwelliannau sylweddol yn ansawdd y gwaith a wneir gyda'r achosion hyn. Yn fy adroddiad blynyddol cyntaf, ar gyfer arolygiadau yn 2018/2019, gwelsom lawer o wahaniaeth o ran pa mor ddigonol oedd y gwaith cosbau allan-o-lys o'i gymharu â dedfrydau llys, yn erbyn ein safonau. Roedd hyn ar draws y prosesau asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, gyda dedfrydau cymunedol yn aml yn sgorio dipyn yn is na chosbau ffurfiol allan-o-lys (rhybuddiadau ieuenctid neu amodol). Erbyn y llynedd, gwelsom welliant yn sgoriau'r cosbau allan-o-lys ar gyfer pob un o'r naw cwestiwn ansawdd, gyda rhai sgoriau'n neidio o 10 pwynt canran neu fwy. O'r cosbau allan-o-lys a arolygwyd y llynedd, o ran y risg o achosi niwed i eraill, roedd 76% yn foddhaol mewn ateb i'n cwestiynau allweddol am ansawdd y gwaith cynllunio, 78% yn foddhaol o ran gweithredu a darparu, a 66% o ran pa mor foddhaol oedd y gwaith asesu. Mae hyn yn welliant cymeradwy iawn ers fy adroddiad blynyddol cyntaf, wedi ei yrru, yn rhannol gobeithio, gan ffocws Arolygiaeth Prawf EM ar ansawdd yr agwedd hon ar y gwaith. Cafwyd perfformiad cryf hefyd ar achosion llys – sydd bellach yn cyfrif am gyfran lawer llai o achosion yr YJS. Sgoriodd o leiaf ddau allan o dri o'r achosion a arolygwyd y llynedd yn foddhaol ar ein holl gwestiynau ansawdd allweddol. Gwelsom berfformiad arbennig o gryf ar asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau ac ymyriadau i ateb anghenion plant a allai fod yn gysylltiedig â'u troseddu, gydag ymhell dros 80% o'r achosion wedi eu dyfarnu i fod yn foddhaol.

Roeddwn yn arbennig o falch gweld sgoriau gwell ar gyfer ansawdd y gwaith a wneir gan wasanaethau lleol i asesu a rheoli'r risg bosib o niwed gan blant achosion YJS i bobl sy'n agos atynt, neu i'r cyhoedd. Nid dweud o gwbl fy mod yn erbyn yr athroniaeth o blant yn gyntaf yw hyn, ond credaf fod y gwaith risg yn rhan hanfodol o'r egwyddor hon – nid lleiaf

[1] Arolygiaeth Prawf EM (2023). Gweithredu a darparu gorchmynion cymunedol: rôl y gwasanaethau troseddau ieuenctid. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2023/03/The-implementation-and-delivery-of-community-resolutions-the-role-of-youth-offending-services-1.pdf

[2] Cod canlyniad yr heddlu yw Canlyniad 22, yn nodi penderfyniad i ohirio erlyn am drosedd lefel isel gan roi cyfle i'r plentyn wneud gwaith arallgyfeirio, gan gynnwys os gwrthododd y plentyn dderbyn cyfrifoldeb neu gynnig o gyfweliad 'dim sylw'. Os yw'r plentyn yn derbyn y cynnig, cofnodir 'dim camau pellach' ar gyfer y digwyddiad.

oherwydd bod llawer o'r rhai a allai fod yn agored i risg oddi wrth blant achosion YJS efallai'n blant eu hunain. Ac fel y dangosodd fwletin ymchwil pwysig gan dîm Arolygiaeth Prawf EM y llynedd,[3] mae gorgyffwrdd enfawr beth bynnag rhwng y plant sydd fwyaf agored i risg eu hunain a'r rhai sy'n cyflwyno risg i eraill. O'n dadansoddiad o bron i 2,000 o achosion, drwy'r llysoedd ac allan-o-lys, roedd tri chwarter y plant a aseswyd i fod yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol i eraill hefyd wedi eu hasesu i fod yn wynebu risg uchel neu uchel iawn i'w diogelwch a'u lles eu hunain.

## Ein sgoriau

Yn wahanol iawn i'r Gwasanaeth Prawf, mae ein sgoriau ar gyfer timau YJS wedi dal eu tir yn rhyfeddol yn ystod y pandemig. Ar draws y 108 o wasanaethau a arolygwyd dros y pedair blynedd diwethaf yn ein hadroddiadau blynyddoedd, sgoriwyd 55 fel rhai 'Da' a 12 fel rhai 'Rhagorol'. Y llynedd roedd 70% o sgoriau'r 33 gwasanaeth wedi disgyn i'r ddau gategori gorau hwn, o'i gymharu â 58% cyn y pandemig yn 2018/2019 – gyda sgoriau arbennig o gryf ar gyfer staffio, partneriaethau a TG a chyfleusterau.

Oherwydd bod ein timau arolygu'n symud o gwmpas Cymru a Lloegr, ar y cyfan gwelwn gyfraddau isel o swyddi gwag; llwythi achosion cytbwys; perthynas dda â phartneriaid lleol; ac amrywiaeth dda o wasanaethau i blant yn cael eu darparu'n fewnol. Mae model y bwrdd rheoli aml-asiantaethol hefyd yn parhau i weithio'n dda, gyda llawer o gadeiryddion ymroddedig a pharod i ymroi (Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant erbyn hyn fel arfer) yn dangos arweinyddiaeth a chraffu cryf o waith eu gwasanaethau. Sgoriwyd 6 allan o bob 10 gwasanaeth a arolygwyd y llynedd fel 'da' neu 'rhagorol' ar arweinyddiaeth, a dim ond un fel 'anfoddhaol'.

Er bod staffio'n gryfder o hyd yn y rhan fwyaf o wasanaethau, gyda sgoriau 'da' neu 'rhagorol' ar gyfer 25 o'r 33 gwasanaeth sy'n rhan o'r adroddiad hwn, rydym yn parhau i weld swyddi prawf gwag wrth ymweld â gwasanaethau lleol – mater y lleisiais bryder amdano yn fy adroddiad blynyddol diwethaf. Er yn cydnabod y straen y mae'r Gwasanaeth Prawf o dano i gwrdd â'i ofynion staffio, mae ganddo ddyletswydd statudol i lenwi'r swyddi hyn, sy'n hanfodol os yw plant i bontio'n effeithiol o'r gwasanaeth YJS i wasanaethau prawf oedolion, ac er mwyn gallu asesu a rheoli risg. Wrth i sefyllfa staffio'r Gwasanaeth Prawf wella dros y flwyddyn i ddod, byddaf yn disgwyl i'r swyddi hyn gael eu llenwi fel blaenoriaeth bwysig.

Yn yr achosion prin hynny lle y bu'n rhaid i ni sgorio gwasanaeth fel 'anfoddhaol' dros y pedair blynedd ddiwethaf, dw i'n falch o adrodd bod pob un wedi gwella yn dilyn eu hail-arolygu, rhai'n sylweddol. Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf, tynnais sylw fod sgôr YJS Blackpool wedi newid o 'anfoddhaol' i 'da'. Yn yr adroddiad hwn dw i'n falch o ddweud bod YJS Surrey wedi gwella mewn ffordd debyg, drwy weithredu ein hargymhellion yn bositif. A gwelsom hefyd welliannau yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

## Gwasanaethau i blant achosion YJS

Mae'r amrediad o wasanaethau arbenigol y gall y gwasanaethau YJS eu cynnig i blant yn eu llwythi achosion yn parhau i greu argraff dda. Maen nhw'n tyfu o ran amrediad ac arbenigedd a sgoriwyd chwe gwasanaeth yn 'Rhagorol' yn erbyn ein safon partneriaethau a gwasanaethau'r llynedd. Mae gan bron i bob gwasanaeth yr ydw i'n ymweld â nhw bellach fynediad at ymarferydd gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) llawn neu ran amser, a therapydd iaith a lleferydd. Yn ogystal, mae staff camddefnyddio sylweddau,

[3] Arolygiaeth Prawf EM (2022). Adnabod pryderon diogelwch am blant. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2022/09/Identifying-safety-concerns-RAB-1-2.pdf.

seicolegwyr addysg a staff lles addysgol arbenigol sy'n gallu asesu'r plant sy'n ymuno â'r llwythi achosion, ac sydd naill ai'n eu cyfeirio ymlaen am gymorth neu therapi pellach neu'n darparu'r cymorth yn fewnol. O ystyried y lefelau uchel o gyflyrau niwroddatblygiad gan blant achosion YJS, mae hefyd wedi bod yn dda gweld mwy o wasanaethau'n sicrhau bod eu plant yn derbyn yr asesiadau sydd ei angen arnynt am anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD). Fodd bynnag, mae'n bryder faint o blant nad ydyn nhw wedi cael diagnosis o'r cyflyrau hyn cyn dod i sylw'r system cyfiawnder ieuenctid, yn aml yng nghanol eu harddegau. Ac yn y gwasanaethau 'Da' a 'Rhagorol, gwelwn bartneriaethau cryf â'r gwasanaethau cymdeithasol plant hefyd, gyda dealltwriaeth glir a chyffredin o swyddi ei gilydd a chydlynu effeithiol o gynlluniau.

Fodd bynnag, un maes y mae gen i bryderon yn ei gylch o hyd yw addysg a hyfforddiant, lle'r oedd nifer yr argymhellion (18) a wnaed yn ein hadroddiadau ar y thema hon yn 2022 yn fwy na dwbl nifer y flwyddyn flaenorol (8 yn 2020/2021). Rydym yn dal i ymweld â gwasanaethau sydd â chyfran uchel o blant hŷn nad ydyn nhw wedi bod mewn unrhyw fath o addysg neu hyfforddiant ar ôl 16 oed. Gwyddom fod plant ifanc sy'n achosion YJS yn cael eu gwahardd dros dro neu'n barhaol o addysg prif ffrwd, ac os ydyn nhw yn yr ysgol maen nhw'n aml yn dilyn amserlen rhan amser.

Arweiniodd y pryderon hyn at gyflawni arolygiad thematig pwrpasol ar y pwnc hwn yn 2022 gyda chydweithwyr o Ofsted ac Estyn. Crynhoir y canlyniadau nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ond roedden nhw'n destun pryder. O'r 181 o achosion a arolygwyd ar draws chwe gwasanaeth lleol, roedd 64% wedi cael eu gwahardd o'r ysgol ar ryw bwynt, roedd 29% (o'r sampl i gyd) wedi cael eu gwahardd yn barhaol, ac nid oedd 25% mewn unrhyw fath o addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Roedd llawer wedi datgysylltu o addysg ers tro byd. Nid oedd yn anghyffredin gweld plant oedd heb fod yn yr ysgol neu'r coleg ers dwy flynedd neu fwy, ac mewn un achos nid oedd plentyn wedi bod yn yr ysgol ers pum mlynedd. Gyda dim byd arall i lenwi eu hamser yn ystod y tymor ysgol, a goruchwyliaeth anfoddhaol gan rieni'n aml, mae'r risg o droseddu neu o gael eu hecsbloetio'n droseddol yn llawer uwch.

Nid yw'n syndod felly bod gan bron i 30% o'r plant yn ein sampl, sy'n llawer uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol, gynllun addysg, iechyd a gofal (EHCP) sy'n dangos bod arnynt angen cymorth ychwanegol sylweddol â'u dysgu (er, o ystyried faint o anghenion nad ydyn nhw wedi eu hadnabod cyn i blant ddod i sylw'r YJS o gwbl, dw i'n amau bod y ganran hon yn uwch fyth). Yn bryderus, y grŵp hwn o blant EHCP oedd yn derbyn y cymorth a goruchwyliaeth waethaf o ran ansawdd gan weithwyr achosion YJS, gyda gwasanaethau anfoddhaol mewn bron i hanner yr achosion a arolygwyd.

Fe wnaethom saith argymhelliad i wella i'r Adran Addysg, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) a byrddau rheoli YJS lleol, i geisio sicrhau bod anghenion addysg a hyfforddiant y plant yn cael eu hasesu'n drylwyr. Mae hyn yn cynnwys monitro presenoldeb a chyfraddau gwahardd plant sydd ar lyfrau'r YJS, yn genedlaethol a lleol, yn llawer mwy trylwyr a rhoi ffocws cryfach ar blant sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a / neu gynlluniau EHCP.

## Adsefydlu plant sy'n gadael y carchar

Un maes yr ydw i'n falch o fod wedi gweld cynnydd ynddo ers i mi fod yn fy swydd yw cymorth i blant sy'n gadael carchar. Ym mis Hydref 2019, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad thematig ar-y-cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM o'r canlyniadau i 50 o blant a adawodd y carchar y flwyddyn honno – fy arolygiad thematig cyntaf fel Prif Arolygydd. Roedd y canlyniadau'n siomedig iawn heb fawr ddim tystiolaeth o gynnydd ers yr adolygiad blaenorol o'r pwnc hwn yn 2015, a chanlyniadau gwael i lawer o'r plant hyn o ran eu hiechyd, addysg neu anghenion llety – neu o ran parhau i droseddu. Er bod y cohort diweddaraf yn dangos peth lleihad mewn aildroseddu, ar y cyfan mae cyfraddau aildroseddu i blant sy'n gadael y

carchar wedi aros yn ystyfnig o uchel dros y 10 mlynedd diwethaf – dros 60% o fewn blwyddyn i ryddhau.

Er mwyn ysgogi mwy o ymdrech ar hyn, gofynnais i fy nhîm gynhyrchu safon newydd, ar wahân ar gyfer ein harolygiadau YJS lleol ar ansawdd y gwaith adsefydlu a wneir gan wasanaethau lleol, ac aeth y safon yn fyw yn haf 2021. Mae arwyddion calonogol bod ein ffocws ar hyn yn gwneud gwahaniaeth yn barod, gan weld consortia adsefydlu'n adfywio mewn ardaloedd fel Llundain a bron pob gwasanaeth bellach gyda'r polisïau a chanllawiau angenrheidiol yn eu lle. Sgoriwyd bron i 80% o'r gwasanaethau a arolygwyd yn erbyn y safon hon fel rhai 'Da' neu 'Rhagorol' y llynedd, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol â sefydliadau troseddwyr ifanc mewn dros 90% o achosion a chynllunio da ar gyfer gofal iechyd ar ôl rhyddhau.


Hoffwn gloi'r trosolwg hwn, a fy nghyfnod fel Prif Arolygydd, drwy dalu teyrnged i staff a rheolwyr yr holl wasanaethau YJS a arolygwyd dros y pedair blynedd diwethaf, a hoffwn ddiolch i bob un wnes i ymweld â nhw fy hun dros y cyfnod hwn am fy nghroesawu i'w gwasanaethau. Mae'r gwydnwch, tosturi, ymrwymiad a dychymyg a ddangoswyd wrth gadw eu gwasanaethau i fynd drwy'r cyfnod hynod anodd hwn, er mwyn cwrdd ag anghenion y plant yn eu llwythi achosion ac i gadw'r cyhoedd yn ddiogel, wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig i mi a'n harolygwyr.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

## Ffeithiau cyd-destunol 2021/2022

**Llif plant drwy'r system cyfiawnder troseddol rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 (gwybodaeth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid)[4]**




**Nodyn ar y siart llif:**

* Mae'r ddedfryd gyfartalog o garchar yn golygu'r cyfnod llawn o garchar a ddedfrydwyd (dedfrydau cyfnod penodol yn unig), nid dim ond yr amser a dreuliwyd yn y carchar mewn gwirionedd.

[4] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2023). Ystadegau cyfiawnder ieuenctid: 2021-2022. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2021-to-2022.


## Ein harolygiadau ieuenctid 2021/2022

### Arolygiadau ieuenctid unigol ac ar-y-cyd

Roedd yr arolygiadau unigol yn cynnwys arolygwyr o Arolygiaeth Prawf EM yn unig. Cynhaliwyd yr arolygiadau ar-y-cyd gan Arolygiaeth Prawf EM a chydweithwyr o’r arolygiaethau iechyd, heddlu, addysg a gofal cymdeithasol.

Arolygwyd y 33 gwasanaeth canlynol rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022:

1 Wolverhampton
2 Surrey
3 Powys
4 Castell-Nedd Port Talbot
5 Calderdale
6 West Mercia
7 Barnet
8 Pen-y-bont ar Ogwr
9 Portsmouth
10 West Sussex
11 Bolton
12 Tower Hamlets & Dinas Llundain
13 Caerdydd (ar y cyd)
14 Bro Morgannwg
15 Thurrock
16 Sutton
17 Blaenau Gwent a Chaerffili
18 North East Lincolnshire
19 Derbyshire
20 Stoke-on-Trent
21 Sir Fynwy Torfaen
22 Hammersmith & Fulham
23 Stockport
24 County Durham
25 Havering
26 Dyfnaint
27 Sunderland
28 Caerefrog
29 Buckinghamshire
30 Dorset (ar y cyd)
31 Blackburn gyda Darwen
32 Suffolk (ar y cyd)
33 Swindon




**Allwedd**

Rhagorol
Da
Angen gwella
Anfoddhaol

# Tabl sgoriau arolygiadau rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022

Rhoddir sgôr cyffredinol ar raddfa pedwar pwynt i bob YOS: 'Rhagorol' ☆, 'Da' ●, 'Angen gwella' ● ac 'Anfoddhaol' ●. Mae sgoriau o'r safonau unigol yn cael eu cyfuno i roi'r sgôr cyffredinol. Mae adio'r sgoriau hyn yn rhoi sgôr cyfansawdd yn amrywio rhwng 0-36, wedi ei fandio i roi'r sgôr cyffredinol fel a ganlyn: 0–6 = 'Anfoddhaol', 7–18 = 'Angen gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Rhagorol'.

Mae adsefydlu'n cael ei sgorio mewn arolygiadau o fis Gorffennaf 2021 ymlaen. Nid yw'r safon hon wedi ei sgorio mewn gwasanaethau YJS lle nad oedd unrhyw achosion sefydlu dros gyfnod y sampl arolygu. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'r adroddiad ar yr arolygiad yn rhoi esboniad naratif o bolisi a darpariaeth.

| | | | | Darparu sefydliadol | | | | Dedfrydau llys | | | | Cosbau allan-o-lys | | | | Adsefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth a arolygwyr | Cyhoeddwyd | Sgôr cyfansawdd | Sgôr cyffredinol | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 | 4.1 |
| YOT Wolverhampton | 08/02/2022 | 28 | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Angen gwella | Rhagorol | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| YOT Surrey | 15/03/2022 | 27 | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da |
| YOT Powys | 22/03/2022 | 19 | Da | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Anfoddhaol | Angen gwella | Da | Rhagorol | Angen gwella | Angen gwella | Da | Rhagorol | Heb ei sgorio |
| YJS Castell-Nedd Port Talbot | 12/05/2022 | 25 | Da | Rhagorol | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Angen gwella | Da | Rhagorol | Angen gwella | Angen gwella | Heb ei sgorio |
| YJS Calderdale | 17/05/2022 | 18 | Angen gwella | Da | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Anfoddhaol | Da | Angen gwella | Da | Da | Da |
| YOS West Mercia | 19/05/2022 | 14 | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da | Da | Angen gwella | Angen gwella |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YOS Barnet | 31/05/2022 | 21 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 14/06/2022 | 11 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | Heb ei sgorio | Heb ei sgorio | Heb ei sgorio | Heb ei sgorio | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | Heb ei sgorio |
| YOT Portsmouth | 21/06/2022 | 22 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| YJS West Sussex | 22/06/2022 | 26 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 |
| YJS Bolton | 06/07/2022 | 29 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ |
| YJS Tower Hamlets a Dinas Llundain | 26/07/2022 | 8 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 |
| YJS Caerdydd (ar y cyd) | 01/08/2022 | 11 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 |
| YOT Bro Morgannwg | 15/08/2022 | 22 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🔴 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | Heb ei sgorio |
| Thurrock | 29/08/2022 | 26 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | 🟠 | 🟠 | 🟠 | ☆ |
| YJS Sutton | 06/09/2022 | 18 | 🟠 | 🟠 | ☆ | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YOS Blaenau Gwent a Chaerffili | 22/09/2022 | 28 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟠 | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | 🟠 | Heb ei sgorio |
| YOS North East Lincolnshire | 27/09/2022 | 27 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟠 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟠 |
| YJS Derbyshire | 28/09/2022 | 24 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟠 | ☆ | 🟠 | 🟢 |
| YJS Stoke-on-Trent | 28/09/2022 | 18 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🔴 |
| YOS Sir Fynwy Torfaen | 20/10/2022 | 22 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟠 | 🟠 |
| YJS Hammersmith & Fulham | 20/10/2022 | 31 | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | ☆ |
| YJS Stockport | 01/11/2022 | 18 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| YOT County Durham | 01/11/2022 | 11 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | ☆ |
| YJS Havering | 01/11/2022 | 20 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | ☆ | 🟢 | 🟠 | 🟢 |
| YJS Dyfnaint | 22/11/2022 | 26 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YOS Sunderland | 13/12/2022 | 26 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | Heb ei sgorio |
| YJS Caerefrog | 15/12/2022 | 32 | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ |
| YJS Buckinghamshire | 10/01/2023 | 27 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | ☆ |
| YJS Dorset (ar y cyd) | 17/01/2023 | 24 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| YJS Blackburn gyda Darwen | 17/01/2023 | 29 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟠 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| YJS Suffolk (ar y cyd) | 18/01/2023 | 9 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 |
| YJS Swindon | 24/01/2023 | 31 | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 |

# Y tirwedd cyfiawnder ieuenctid yn 2022

Mae cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn (Hydref 2021 - Hydref 2022) a'r cyfnod cyhoeddi (hyd at fis Mehefin 2023) wedi gweld newidiadau parhaus a datblygiadau pellach i'r tirwedd cyfiawnder ieuenctid. Rydym ni wedi parhau i weld mwy o blant yn cael eu harallgyfeirio o'r system cyfiawnder ieuenctid a llai o blant yn mynd ymlaen i'r llys a derbyn gorchmynion llys. Mae nifer y plant yn y carchar wedi lleihau a phlant yn derbyn cosbau allan-o-lys yn amlach. Ar draws Cymru a Lloegr, gwelsom amrediad eang o opsiynau a chyfleoedd i blant a gyflawnodd droseddau ond nad aethant ymlaen yn ffurfiol i'r llys. Noda ein bwletin ymchwil a dadansoddi ar weithredu a darparu dedfrydau cymunedol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023,[5] nad oes dal dim data cenedlaethol wedi ei gyhoeddi ar ddefnyddio gorchmynion cymunedol gyda phobl ifanc a bod amrywiadau sylweddol yn parhau gyda darparu a gweithredu cosbau allan-o-lys.

Gwelsom hefyd fwy o wasanaethau YJS yn defnyddio Canlyniad 22[6] dros y cyfnod hwn, er unwaith eto'n gweld amrywiadau gyda darparu'r rhain. Rydym yn croesawu'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'r heddlu ac ymarferwyr eraill ar ddefnyddio Canlyniad 22,[7] ac edrychwn ymlaen at dderbyn matrics difrifoldeb ieuenctid Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)[8] fydd gobeithio'n helpu i roi mwy o eglurder a chysondeb i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a phlant sy'n derbyn cosbau allan-o-lys. Rydym yn cydnabod bod llawer o waith yn cael ei wneud ar gosbau allan-o-lys ar hyn o bryd, gan gynnwys yr offeryn asesu allan-o-lys sy'n cael ei ddatblygu gan yr YJB a'r canllawiau diweddaraf disgwyliedig ar reoli achosion allan-o-lys, ond mae llawer iawn o waith eto i'w wneud. Roedd adroddiad yr YJB ar ei brosiect atal ac arallgyfeirio[9] wedi adnabod bod mwy na hanner, ar gyfartaledd, o lwyth achosion gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn cynnwys plant sy'n derbyn cymorth ataliol neu arallgyfeirio, a bod dryswch cyffredinol o hyd gyda'r diffiniadau o arferion ymyrryd yn gynnar, ymarfer anghyson oherwydd diffyg canllawiau canolog, a bylchau sylweddol yn y data o hyd.

O dan ddangosyddion perfformiad allweddol diwygiedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2023, bydd angen i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid adrodd ar 10 dangosydd perfformiad allweddol newydd i wella gwaith monitro'r YJB, ochr yn ochr â chyflwyno ei 'fframwaith trosolwg'. Fel rhan o hyn, rydym yn falch o weld y bydd ffocws ar gynlluniau gweithredu ôl-arolygu ac y bydd cynnydd ar eu gweithrediad yn cael ei fonitro.

Yng Nghymru, mae gwaith yn parhau ar ddatblygu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid (YJBP), gyda ffocws clir ar atal, arallgyfeirio cyn mynd i'r llys, gwaith cymunedol, carchar ac adsefydlu, sy'n adlewyrchu'r tirwedd datganoledig yng Nghymru.

Gwelsom hefyd weithredu'r Rhaglen *Turnaround* sy'n rhan o fuddsoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r rhaglen yn ariannu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ar draws Cymru a Lloegr er mwyn ymyrryd yn gynnar gyda'r bwriad o atal plant rhag dod yn rhan o'r system gyfiawnder.


---

[5] Arolygiaeth Prawf EM (2023). Bwletin Ymchwil a Dadansoddi 2023/01. Gweithredu a darparu gorchmynion cymunedol: rôl y gwasanaethau troseddau ieuenctid.
[6] Erlyn wedi'i ohirio yw Canlyniad 22 sy'n cynnwys gwaith arallgyfeirio, addysgol neu ymyriad arall.
[7] Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (2022). Canllawiau ar gyfer Canlyniad 22 (2022).
[8] Disgwylir cyhoeddi ym mis Mehefin 2023
[9] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2023). Adroddiad terfynol: prosiect atal ac arallgyfeirio.

# Trosolwg ar berfformiad arolygu 2021/2022

Rhwng mis Hydref 2021 a Hydref 2022, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EM 33 o adroddiadau arolygu YJS.

**Ffigwr 1: Sgoriau cyffredinol, 2018-2022**




O'i gymharu â'n hadroddiad blynyddol yn 2021, sgoriwyd cyfran fymryn yn llai o wasanaethau fel 'rhagorol' (tri gwasanaeth) ac ychydig yn fwy fel 'da' (20 gwasanaeth). Arhosodd y gyfran o wasanaethau YJS a sgoriwyd fel 'angen gwella' tua'r un fath, ar tua 30% (10 gwasanaeth). Fel y llynedd, ni sgoriwyd yr un YJS fel 'anfoddhaol' ac ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiad gennym yn sgorio YJS fel 'anfoddhaol' ers Gorffennaf 2020. Y gwasanaeth YJS gyda'r sgôr arolygu uchaf dros gyfnod yr adroddiad hwn oedd Caerefrog, lle y gwelsom wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda a mynediad at yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel, partneriaethau cryf a staff ymroddedig ac effeithiol.

**Astudiaeth achos: Caerefrog**

Yng Nghaerefrog, roedd y diwylliant o roi anghenion y plant yn gyntaf yn glir ar lefel weithredol a strategol ac ar draws y bartneriaeth. Roedd wedi ei ddatblygu a'i gynnal dros amser ac roedd yn ganmoladwy sut yr oedd yn trosi'n wasanaethau i blant.

Roedd staff medrus ac ymroddgar yn cael eu harwain gan dîm rheoli cryf, abl ac ymroddedig. Roeddent i gyd yn uchelgeisiol dros y plant ac yn benderfynol o wella rhagolygon y plant i'r dyfodol. Roedd y tîm yn gyrru gwelliannau i'r gwasanaeth ac wedi datblygu perthnasoedd rhagorol ag asiantaethau eraill gan arwain at waith asesu, cynllunio a darparu ymyriadau effeithiol, ar gyfer gorchmynion statudol a chosbau allan-o-lys.

Roedd y partneriaethau i gyd yn gryf ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i waith yr YJS. Roeddem yn edmygu'r ffordd yr oedd y bartneriaeth wedi ymateb i anghenion llety'r plant, yn enwedig y plant a ddaeth allan o'r carchar. Mae hwn yn faes ymarfer lle y mae llawer o bartneriaethau lleol, er eu hymdrechion gorau, yn cael trafferth rhoi mynediad at lety addas. Yng Nghaerefrog, roedd llety penodol yn cael ei adnabod yn gyflym a'i neilltuo lle'r oedd angen. Roedd gan weithwyr digartrefedd ieuenctid arbenigol gysylltiadau effeithiol â darparwyr llety ac yn gallu dod o hyd i leoliadau. Gallai'r partneriaid wedyn wneud cynlluniau effeithiol ar gyfer rhyddhau gan hefyd sicrhau bod y plant, a'u rhieni a gofalwyr, yn gwybod ble y byddent yn byw ar ôl eu rhyddhau.

Roeddem yn edmygu ansawdd cyson uchel y gwasanaethau a'r amrediad o ymyriadau a oedd ar gael i blant, gan gynnwys pa mor dda yr oedd canfyddiadau'r asesiadau cyfathrebu iaith a lleferydd yn cael eu rhannu a'u defnyddio gan y bartneriaeth i gefnogi'r plant. Roedd gwaith ar-y-cyd rhwng y therapydd iaith a lleferydd (SALT) a'r plismon YJS wedi arwain at sicrhau bod canllaw SALT ar gael i bob plismon(es) drwy ddyfeisiau llaw electronig. Gallai plismyn a fyddai'n dod i gysylltiad â phlant adnabod a oedd y plentyn yn gweithio gyda'r YJS a chyfeirio'n sydyn at y canllaw. Roedd Caerefrog wedi adnabod bod hyn wedi gwella sut yr oedd yr heddlu'n siarad gyda, ac ymgysylltu â phlant.


# Effaith yr arolygiadau

Un o bwrpasau dywededig Arolygiaeth Prawf EM yw *taflu golau ar ansawdd ac effaith gwasanaethau.*[10] Mae ein harolygiadau'n darparu canllawiau a dyfarniadau awdurdodol ar sail tystiolaeth. Defnyddiwn ein llais i wthio am newid systemau, gyda ffocws ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Pwrpas ein gwaith craffu yw rhoi canlyniadau gwell i unigolion a chymunedau. Fel arfer bydd YJS yn cael ei arolygu unwaith ym mhob cylch rhaglen arolygu graidd. Fodd bynnag, os oes gennym bryderon penodol am YJS ar ôl i ni ei sgorio fel 'Anfoddhaol' yn gyffredinol, byddwn yn ail-arolygu'r gwasanaeth er mwyn sicrhau'r gwelliant angenrheidiol.

Sgoriwyd arolygiadau blaenorol o Western Bay (2018), Surrey (2019) a Chaerdydd (2020) i gyd yn 'Anfoddhaol', fel bod angen eu hail-arolygu. Roedd Western Bay yn gonsortiwm o wasanaethau YJS yn Ne Cymru a ymrannodd wedyn yn dair ardal awdurdod lleol sef Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-Nedd Port Talbot. Ail-arolygwyd Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-Nedd Port Talbot yn 2021/2022.[11]

Gwelsom welliant ym mhob ardal gyda Surrey a Chastell-Nedd Port Talbot yn cael sgôr 'da' a Chaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr yn cael sgôr 'angen gwella'.

**Ffigwr 2: Sgoriau cymharol rhwng yr arolygiad gwreiddiol a'r ail-arolygiad[12]**




[10] Arolygiaeth Prawf EM. Ein gweledigaeth, pwrpas a gwerthoedd. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/statement-of/
[11] Cafodd Abertawe ei arolygu yn 2021 a'i gynnwys yn adroddiad blynyddol 2020-2021.
[12] Nid oedd gan YJS Pen-y-bont ar Ogwr ddigon o achosion i gael ei sgorio ar gyfer parth dau. Roedd sgôr yr ail-arolygiad yn uchafswm o 24 yn hytrach na 36. Sgoriwyd arolygiad cyntaf (2020) Caerdydd yn 0/36.

### Ail-arolygiad Surrey – gwelliannau sylweddol a newidiadau effeithiol wedi eu gwneud

Surrey oedd yr ardal a wnaeth y gwelliannau mwyaf rhwng yr arolygiad gwreiddiol a'r ail-arolygiad. Yn ein harolygiad o Surrey yn 2019, roedd y gwasanaeth wedi cael ei integreiddio'n ddiweddar yng ngwasanaethau plant yr awdurdod lleol. Er bod modelau integreiddio'n gallu llwyddo, nid oedd yn effeithiol yn Surrey pan wnaed yr arolygiad cyntaf hwnnw, gyda cholli ffocws wedi bod ar gyfiawnder ieuenctid.

Roedd yr arolygiad gwreiddiol wedi adnabod llawer o feysydd gydag ymarfer gwael. Nid oedd dealltwriaeth nac ymateb effeithiol, ar lefel strategol na gweithredol, i anghenion plant a phobl ifanc a oedd eisoes yn troseddu, neu mewn perygl o wneud hynny.

Roeddem yn poeni nad oedd Surrey wedi rhoi blaenoriaeth iawn ers tro i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid arbenigol. Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da ac yn ymgysylltu'n dda â phlant a theuluoedd, ac roedd rhai pocedi o ymarfer da, yn enwedig gyda'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i gefnogi ymatal. Fodd bynnag, nid oeddem yn fodlon bod gan staff yr wybodaeth, profiad na'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ymateb i faterion diogelwch a lles a'r risg o niwed i eraill. Yn rhy aml o lawer, nid oedd y plant yn derbyn eu hawl gyfreithiol i addysg a dim dealltwriaeth o'r rhesymau pam. Roedd y ddarpariaeth iechyd yn anfoddhaol, bylchau yn y gwasanaethau oedd ar gael a rhestri aros hir am apwyntiadau.

Ar y cyfan, barnwyd bod angen cydlynu'r asiantaethau a'r gwasanaethau'n well wrth ddarparu ymyriadau, os oeddent i fod yn effeithiol.

Yn yr ail-arolygiad, roedd newidiadau sylweddol wedi digwydd a'r gwaith a oedd yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth yn llawer gwell, gyda chynnydd nodedig ers yr arolygiad cyntaf. Roedd y model integredig yn ei le o hyd ond roedd gan gyfiawnder ieuenctid broffil uwch. Roedd dysgu a datblygu wedi gwella ac roedd gan y staff ddealltwriaeth well o risg yn eu hachosion. Roedd mynediad gwell at wasanaethau iechyd ac addysg.

Roedd y bartneriaeth wedi mabwysiadu dull systematig o wella gwasanaethau, gyda chanlyniadau nodedig. Roedd ansawdd y gwaith achosion llys ac allan-o-lys a arolygwyd i'w ganmol. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer adsefydlu hefyd yn gryf. Roedd ymarferwyr a thîm rheoli'r YJS yn adnabod eu plant yn dda a gyda mynediad at amrediad rhagorol o wasanaethau i ateb anghenion y plant. Gwelsom hefyd ymarfer arloesol ac roedd y sesiynau briffio risg aml-asiantaethol dyddiol yn ffordd effeithiol o ymyrryd yn gynnar gyda'r plant.

Casglodd yr arolygiad fod tîm arweinyddiaeth yr YJS wedi bod yn ganolog i'r gwelliannau ac wedi datblygu gwasanaeth gwybodus ac ymroddgar. Roeddem yn teimlo y dylen nhw a'r tîm gael eu llongyfarch ar y cynnydd a wnaethant mewn dwy flynedd.

# Argymhellion a wnaed mewn adroddiadau arolygu yn 2022

Mae pob adroddiad arolygu'n cynnwys nifer o argymhellion er mwyn ceisio datrys materion polisi ac ymarfer allweddol a ododd yn ystod yr arolygiad. Mae yna'n ofynnol i wasanaethau YJS ddatblygu cynlluniau gweithredu i sicrhau y gweithredir ein hargymhellion er mwyn gwella'r ymarfer. Mae'r argymhellion yn adlewyrchu'r pethau sydd angen eu gwella yn yr YJS, gyda ffocws clir ar wella ymarfer a llywodraethu strategol. Mewn meysydd gydag ymarfer gwannach, nid yw'r argymhellion yn cyfeirio at bob rhan o ymarfer ond yn canolbwyntio ar feysydd allweddol sydd angen eu gwella.

Roedd yr argymhellion a wnaed amlaf yn 2022 yn ymwneud ag ymarfer achosion plant (diogelwch a lles plant yn bennaf a'r risg o niwed gan y plant i eraill), yna ffocws ar wella byrddau rheoli a phartneriaethau.

## Crynodeb o themâu allweddol o ddadansoddi'r argymhellion

- Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr argymhellion yn ymwneud ag adsefydlu, diffyg cymesuredd a pholisi a darpariaeth cosbau allan-o-lys. Mae nifer yr argymhellion ar ddiffyg cymesuredd a / neu amrywiaeth wedi cynyddu, o naw yn 2020/21 i 20 yn 2021/22. Mae hyn yn adlewyrchu ein bod wedi pwyso am welliannau traws-system yn y maes hwn.
- Mae argymhellion ar gyfer ymarfer yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys y gweithgareddau craidd fel asesu, cynllunio, darparu ac adolygu, ac fel arfer yn gysylltiedig â gwella ymarfer yn ymwneud â diogelwch a lles plant, a risg o niwed i eraill.
- O ran darparu addysg i blant dan oruchwyliaeth yr YJS, mae'r argymhellion fel arfer yn ymwneud â sicrhau bod gan y plant fynediad at addysg llawn amser o ansawdd da sy'n cwrdd ag anghenion y plentyn.
- Gwnaed llai o argymhellion yn ymwneud â chyfranogiad y plant a'r rhieni. Mae ffocws 'plant yn gyntaf' wedi gwreiddio'n dda mewn llawer o wasanaethau YJS a llawer yn cydnabod bod angen cynnwys y plant a'r rhieni'n ystyrlon mewn datblygu, darparu a gwerthuso gwasanaethau.
- Mae argymhellion uniongyrchol i'r Gwasanaeth Prawf wedi cynyddu ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf ac yn adlewyrchu ein pryderon am y nifer isel o secondiadau swyddogion prawf i'r YJS.

# Darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid fel sefydliad

Edrychwn ar bedair agwedd ar ddarparu sefydliadol wrth arolygu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Ar draws y 33 gwasanaeth a drafodwn yn yr adroddiad blynyddol hwn, rhoesom y sgoriau canlynol ar gyfer safonau arweinyddiaeth ac agweddau eraill ar ddarparu sefydliadol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac arweinyddiaeth** | | | |
| ★ **Rhagorol** 5 gwasanaeth | ● **Da** 15 gwasanaeth | ● **Angen gwella** 12 gwasanaeth | ● **Anfoddhaol** 1 gwasanaeth |
| **Staff** | | | |
| ★ **Rhagorol** 8 gwasanaeth | ● **Da** 17 gwasanaeth | ● **Angen gwella** 8 gwasanaeth | ● **Anfoddhaol** 0 gwasanaeth |
| **Partneriaethau a gwasanaethau** | | | |
| ★ **Rhagorol** 6 gwasanaeth | ● **Da** 19 gwasanaeth | ● **Angen gwella** 8 gwasanaeth | ● **Anfoddhaol** 0 gwasanaeth |
| **Gwybodaeth a chyfleusterau** | | | |
| ★ **Rhagorol** 4 gwasanaeth | ● **Da** 22 gwasanaeth | ● **Angen gwella** 6 gwasanaeth | ● **Anfoddhaol** 1 gwasanaeth |

## Llywodraethu ac arweinyddiaeth


Wrth asesu llywodraethu ac arweinyddiaeth, ystyriwn dri chwestiwn allweddol fel a ganlyn:

- a oes gweledigaeth a strategaeth leol glir ar gyfer darparu gwasanaeth ymatebol o ansawdd da ac wedi ei bersonoleiddio i bob plentyn
- a yw'r trefniadau partneriaeth yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau effeithiol
- a yw arweinyddiaeth yr YJS yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

Mae’r cwestiynau allweddol hyn yn ymwneud â rheolaeth strategol o’r gwasanaeth, drwy’r bwrdd rheoli; rôl uwch-swyddogion; a rheolaeth weithredol o wasanaethau dydd i ddydd.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, rydym yn gyson wedi sgorio arweinyddiaeth a llywodraethu rhwng 40-60% o wasanaethau a arolygwyd fel ‘da’ neu ‘rhagorol’ ac roedd yn braf gweld gwelliant o un flwyddyn i’r llall yn y gyfran hon y llynedd, i 60%.

**Ffigwr 3: Dosbarthiad sgoriau arweinyddiaeth rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022**





Roedd gan y 5 gwasanaeth a sgoriwyd yn 'rhagorol' yn 2022 ymgysylltiad ac ymrwymiad da gan y bwrdd. Yn yr ardaloedd hyn, roedd perthynas effeithiol fel arfer rhwng asiantaethau partner a'u cynrychiolwyr y tu allan i'r bwrdd er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth i ymateb yn sydyn i ddatblygiadau newydd. Roedd aelodau bwrdd yn gweithio'n galed i gefnogi, monitro a herio gwaith yr YJS gan ymgysylltu a chyfranogi'n llawn yn ei waith. Roedd y byrddau mwyaf llwyddiannus yn ymgysylltu'n barod â'r plant, yn gwrando ar eu barn ac yn gallu dangos tystiolaeth glir o effaith eu barn ar benderfyniadau strategol a darparu gwasanaethau.

Yn y rhai a sgoriwyd fel 'angen gwella', roedd amrywiaeth o ffactorau a arweiniodd at ddiffygion mewn llywodraethu ac arweinyddiaeth. Roedd aelodaeth y bwrdd rheoli'n anghyson gydag aelodau bwrdd nad oedd yn deall eu rolau neu gyfrifoldebau a gyda gwybodaeth brin o waith yr YJS. Yn aml iawn, nid oedd aelodau bwrdd ar lefel ddigon uchel i wneud penderfyniadau ac ni welsom lawer o dystiolaeth bod aelodau bwrdd yn eiriol dros blant YJS yn y bartneriaeth ehangach. Nid oedd lleisiau plant a rhieni neu ofalwyr yn cael eu clywed ddigon ar lefel bwrdd neu'n cael fawr ddim dylanwad ar y penderfyniad i ddarparu gwasanaeth. Yn yr ardaloedd llai effeithiol, nid oedd y byrddau'n monitro'n llwyddiannus bod y cynllun cyfiawnder ieuenctid yn cael ei ddarparu, neu'n methu â gweithredu blaenoriaethau'r cynlluniau. Roedd strategaethau amrywiaeth a diffyg cymesuredd yn aml heb gael eu datblygu'n iawn.

## Staff

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae staffio wedi bod yn un o'r safonau a sgoriodd orau gyda 65% neu fwy o wasanaethau a arolygwyd wedi eu sgorio fel 'da' neu 'rhagorol'. Roedd yn braf gweld dros dri chwarter yn cyrraedd y nod hwn yn 2022.

**Ffigwr 4: Dosbarthiad sgoriau staff rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022**




Roedd gan wasanaethau a sgoriwyd fel 'da' neu 'rhagorol' grwpiau staff sefydlog oedd yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth da ac yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol gan gynnwys lle ar gyfer ymarfer a chael trafodaethau myfyriol. Roedd y llwythi gwaith yn rhesymol ac yn cael eu rheoli'n bwrpasol a'r broses dyrannu gwaith yn ystyried capasiti rheolwyr achosion er mwyn darparu gwasanaeth da. Roedd strategaethau effeithiol yn eu lle i gynnal ansawdd y darparu yn ystod cyfnodau o absenoldebau staff a gynlluniwyd ac annisgwyl. Mae'r gweithlu ar y cyfan yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned ac roedd cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, dysgu a thrafodaeth er mwyn gwella gwybodaeth, sgiliau a hyder ymarferwyr o gwmpas deall amrywiaeth plant.

Yn yr ardaloedd hynny a sgoriwyd fel 'angen gwella', roedd trafferthion recriwtio a chadw staff, gormod o swyddi gwag, trefniadau dros dro, neu oedi gyda recriwtio i swyddi allweddol. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu gwael gydag ymarferwyr a pherthnasoedd anghyson neu ddiffyg eglurder rhwng staff gweithredol, rheolwyr ac uwch-reolwyr. Gwelsom enghreifftiau nad oedd anghenion dysgu staff yn cael eu cwrdd a thystiolaeth o ddiffyg hyder gan staff yng nghyswllt ymarfer allweddol fel adnabod a rheoli'r risg o niwed i eraill, a risgiau'n ymwneud â lles a diogelwch plant. Gwelsom hefyd rai staff nad oedd yn deall neu'n teimlo'n hyderus i drafod anghenion amrywiol y plant, a diffyg hyfforddiant i'w cefnogi i ddatblygu'r sgiliau hyn.

## Adborth o'r arolwg staff

Ar gyfer pob arolygiad, rhown gyfle i staff gwblhau arolwg sy'n gofyn nifer o gwestiynau am eu profiadau o weithio yn eu YJS. Ar draws y 33 gwasanaeth YJS a arolygwyd dros y cyfnod hwn, derbyniwyd 680 ateb i'r arolwg.

Dywedodd staff eu bod ar y cyfan yn brofiadol gyda hanner wedi gweithio i'r gwasanaeth YJS am dros bum mlynedd; 17% am rhwng tair a phum mlynedd; 17% am un i ddwy flynedd; a dim ond 15% am lai na blwyddyn.

Roedd dwy ran o dair o'r staff yn ferched, chwarter yn ddynion a 7% wedi dewis peidio â nodi rhywedd.

Roedd y staff yn amrywio o ran oed, gyda 10% rhwng 18-30; 26% rhwng 31-40; 29% rhwng 41-50; 22% rhwng 51-60; a 4% dros 60 oed. Dewisodd 8% o staff beidio â rhoi eu hoed.

Roedd y mwyafrif helaeth o'r staff o darddiad ethnig gwyn (84%) gyda dim ond nifer fach o darddiad ethnig du (4%), Asiaidd (2%) a tharddiad ethnig cymysg neu luosog (3%). Dewisodd 7% o staff beidio â nodi eu cefndir ethnig.

Dywedodd 94% o staff eu bod yn deall gweledigaeth neu strategaeth eu gwasanaeth yn eithaf da neu'n dda iawn.

Dywedodd 97% o staff eu bod yn deall eu rolau a chyfrifoldebau'n eithaf da neu'n dda iawn.

Roedd dealltwriaeth y staff o weithgareddau'r byrddau rheoli'n amrywio gyda bron i chwarter yn dweud nad oeddent yn ymwybodol iawn neu ddim yn ymwybodol o gwbl.

Teimlai staff eu bod yn gallu herio eu rheolwyr a chynnig syniadau, gyda dim ond 4% yn dweud mai pur anaml yr oeddent yn gwneud hyn, neu byth; dywedodd 70% eu bod yn gwneud hyn yn aml.

Teimlai staff eu bod yn derbyn y lefel iawn o oruchwyliaeth gan reolwyr gyda 94% yn dweud bod pa mor aml yr oedd hyn yn digwydd fwy neu lai'n iawn.

Teimlai staff hefyd fod ansawdd eu goruchwyliaeth yn dda gyda 96% yn dweud ei fod naill ai'n dda iawn neu'n eithaf da.

Yn gyffredinol teimlai staff fod ganddyn nhw'r sgiliau iawn i'w rôl a 64% bod ganddyn nhw'r sgiliau cywir a llawn i wneud eu gwaith.

Dywedodd staff fod eu hanghenion amrywiaeth yn cael eu cydnabod ac yn cael eu cwrdd yn dda iawn neu'n eithaf da mewn 94% o achosion.

Roedd staff yn deall polisïau a gweithdrefnau'r YJS yn dda iawn neu'n eithaf da mewn 99% o achosion. Dim ond 10 o staff gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (allan o 679) a ddywedodd nad oedden nhw'n deall y polisïau a'r gweithdrefnau'n dda iawn.

Ar draws ein harolygiadau, roedd amrywiaeth o lwythi achosion gyda rhai ymarferwyr yn gyfrifol am 5 neu 6 o achosion ar gyfartaledd, ac eraill yn gyfrifol am hyd at 13 neu 14 o blant ar y tro. Ar y cyfan roedd y llwythi gwaith yn gytbwys gyda dim ond 11% o staff yn dweud nad oedd ganddyn nhw lwythi gwaith cytbwys.

Roedd gan y gwasanaethau hefyd amrywiaeth o wahanol ddulliau o ddyrannu achosion. Gwelsom ymarferwyr yn gyfrifol am gosbau allan-o-lys neu achosion llys yn unig, ac eraill gyda llwythi achosion cymysg yn cynnwys achosion allan-o-lys, achosion llys ac achosion adsefydlu. Gwelsom hefyd ddarlun cymysg ar draws y 33 gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid o ran cyfraddau swyddi gwag, salwch staff a chadw staff. Roedd y cyfraddau swyddi gwag a salwch staff mewn rhai ardaloedd yn gyson isel, gyda throsiant staff isel iawn, ond mewn eraill roeddent dipyn yn uwch.

### Secondiadau prawf

Rydym yn parhau i boeni am ardaloedd lle nad oedd yr isafswm staffio statudol yn ei le ar gyfer yr YJS, ac yn fwyaf nodedig, swyddi gwag ar gyfer swyddogion prawf. Mae'r diffygion hyn yn parhau i fod a goblygiadau eang, gan gynnwys ar bontio'n effeithiol o wasanaethau ieuenctid i oedolion. Mae rôl prawf yn y bartneriaeth yn un ganolog. Pan fydd yn gweithio'n dda, gallwn weld nifer o fanteision gan gynnwys pontio llyfn a rhannu gwybodaeth effeithiol. Lle'r oedd swyddogion prawf mewn swydd, gwelsom dystiolaeth bositif o'u heffaith a'r sgiliau a gwybodaeth werthfawr yr oeddent yn ei gyfrannu.

Ond mewn gormod o ardaloedd roedd swyddi gwag o ran darparu prawf i wasanaethau YJS. Mae'r YJB, yr Uned Bolisi Cyfiawnder Ieuenctid (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) a Chymdeithas y Rheolwyr YOT (AYM) i gyd yn ymdrechu'n rhagweithiol i fonitro swyddi secondiadau prawf gwag, gyda chiplun a gwblhawyd ym Mawrth 2023 yn awgrymu bod bylchau staffio sylweddol mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys Cymru, Llundain, Dwyrain a Gogledd-Ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog a Humberside a Manceinion Fwyaf.

Arhoswn yn bryderus bod y bylchau hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar ansawdd dadansoddi ac asesu risg, dealltwriaeth gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid o risg, a'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth o drefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaethol (MAPPA). Er yn cydnabod y pwysau staffio sylweddol y mae'r Gwasanaeth Prawf o danynt ar hyn o bryd, mae ganddo gyfrifoldeb statudol i ddarparu adnoddau staffio i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a chredwn fod hwn yn faes sydd angen sylw brys.

### Trosolwg gan reolwyr

Roedd y gwaith trosolwg gan reolwyr ond yn foddhaol mewn 58% o'r achosion gorchmynion llys a arolygwyd ac mewn 62% o achosion allan-o-lys.

Er bod trosolwg yn aml yn gyfle i'r ymarferydd drafod achosion, nid oedd hyn bob amser yn arwain at ganllawiau clir, gweithredu na chefnogaeth a oedd yn arwain at welliannau. Mae trosolwg effeithiol gan reolwyr hefyd yn fater o sicrhau bod unrhyw newid neu weithredu'n digwydd a bod ymarfer yn parhau i fod ar darged heb adael i bethau lithro. Mae hwn yn faes lle y credwn fod hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol i reolwyr yn hanfodol i'w hwyluso a'u cynorthwyo i ddarparu trosolwg effeithiol. Mae hefyd angen i wasanaethau YJS sicrhau lefel rwydd o drosolwg gan reolwyr, ac mewn achosion lle'r oedd llai o drosolwg gwelsom enghreifftiau'n aml o reolwyr gyda phortffolios eang iawn a / neu'n gyfrifol am nifer uchel o staff hefyd.


## Partneriaethau a gwasanaethau

Wrth asesu partneriaethau a gwasanaethau, ystyriwn a yw'r YJS yn darparu amrediad cynhwysfawr o wasanaethau da, fel y cynigir darpariaeth ymatebol ac wedi ei phersonoleiddio i bob plentyn. Dengys ein tystiolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar[13]:

- Gall partneriaethau cryf arwain at fod yn fwy effeithiol ac effeithlon drwy gydlynu gwasanaethau a chyfuno adnoddau, gan wella ymgysylltiad a chyfranogiad plant a'u teuluoedd drwy greu cyfleoedd ac adnoddau newydd yn eu bywydau.
- Mae'n arbennig o bwysig datblygu systemau cydweithredu effeithiol rhwng gwasanaethau i sicrhau y gall plant gael mynediad at yr adnoddau sydd ei angen fwyaf arnynt. Mae angen datblygu llwybrau clir ac achub ar bob cyfle i integreiddio gwasanaethau a rhoi pob mynediad posib atynt.
- Dylid cael cymysgedd cryf o wasanaethau targed, arbenigol a phrif ffrwd a dylai ymarferwyr ystyried parhau'r cymorth yn y gymuned pan ddaw goruchwyliaeth yr YJS i ben. Mae angen creu cysylltiadau positif rhwng teuluoedd, ysgolion a chymunedau lleol.
- Mae gwydnwch systemig yn golygu rhoi'r plentyn yn y canol a chryfhau'r ffactorau gwarchodol o'u cwmpas, gan gynnwys yn eu teulu, eu cymuned ac yn y gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Dros y pedair blynedd diwethaf sgoriwyd dros hanner y gwasanaethau fel 'da' neu 'rhagorol' ar y safon yma, ac roedd yn braf gweld hyn yn cyrraedd dros 75% yn 2022, gyda chwe gwasanaeth wedi eu sgorio fel 'rhagorol'.

**Ffigwr 5: Dosbarthiad sgoriau gwasanaethau rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022**




Yn yr ardaloedd cryfaf, fel arfer dangosai'r holl asiantaethau ar draws y bartneriaeth ymrwymiad i'r egwyddor o weld y plentyn fel plentyn yn gyntaf. Roedd hyn yn aml yn arwain at ddull deall trawma o weithio gyda phlant a theuluoedd, oedd yn glir o'r iaith a ddefnyddiai'r staff ac o greadigrwydd yr ymyriadau.

[13] Arolygiaeth Prawf EM. Partneriaethau a gwasanaethau. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/research/the-evidence-base-youth-offending-services/organisational-delivery/partnerships-and-services/.

Yn yr ardaloedd a sgoriwyd fel 'Rhagorol', fel arfer roedd partneriaethau cryf a chysylltiadau hirsefydlog cadarn ag amrywiaeth o bartneriaid, gyda'r plant yn derbyn amrywiaeth eang o wasanaethau a chymorth a fawr ddim neu ddim oedi gyda derbyn gwasanaethau priodol. Gwelsom hefyd fod y gwasanaethau YJS yn defnyddio barn y plant, rhieni a'r gofalwyr yn effeithiol i oleuo a datblygu gwasanaeth. Gwelsom enghreifftiau o YJS oedd yn sicrhau llwybrau niwro-ddatblygol effeithiol i'w plant, fel gwasanaethau arbenigol yn gyfrifol am asesu cyflyrau niwro-ddatblygol fel ASD ac ADHD. Gallai ymarferwyr wedyn gyfeirio'r plant yn amserol at wasanaethau arbenigol fel iaith a lleferydd, anabledd dysgu neu iechyd meddwl. Roedd gan lawer o wasanaethau fynediad at weithwyr camddefnyddio sylweddau oedd yn deall anghenion y plant ac yn gallu eu cymell i ddefnyddio gwasanaethau cyffuriau ac alcohol cymunedol. Roedd y berthynas rhwng yr YJS a gofal cymdeithasol plant yn gryf, gyda chyd-ddealltwriaeth o'u gwahanol swyddi gan arwain at ddatblygu cynlluniau aml-asiantaethol cydgysylltiedig ac ategol. Yn yr ardaloedd hyn roedd cyfiawnder ieuenctid a chymorth cynnar yn integreiddio'n effeithiol a mynediad eang at arbenigedd iaith a lleferydd. Gwelsom hefyd bartneriaethau cryf â'r llysoedd, heddlu a gyda darparwyr llety ac addysg. Drwy'r rhain, gallai staff rannu gwybodaeth yn effeithiol ac ennill dealltwriaeth dda o ddarpariaeth gwahanol wasanaethau, gan hefyd sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu cwrdd.

Yn yr ardaloedd a sgoriwyd fel 'angen gwella', gwelsom amrywiaeth o ddiffygion. Fel arfer, nid oedd eu dadansoddiad o broffil y plant yn nodi'r amrediad llawn o anghenion ymatal, ffactorau lles a diogelwch, ffactorau risg o niwed neu amrywiaeth. Nid oedd gwasanaethau penodol wedi eu hadnabod ar gyfer plant ag anghenion amrywiol. Roedd bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth prawf a / neu brosesau pontio anfoddhaol nad oedd yn dilyn y trefniadau pontio'n gyson. Gwelsom hefyd berthnasoedd aneffeithiol â phartneriaid statudol o ran gwaith diogelu a gwarchod y cyhoedd. Yn aml iawn roedd rhestri aros hir am wasanaethau arbenigol ar gyfer cyflyrau niwro-amrywiol, fel nad oedd anghenion plant yn cael eu cwrdd, a gwelsom brosesau sicrhau ansawdd prin neu absennol er mwyn monitro effaith yr ymyriadau oedd yn cael eu darparu.

Lle y teimlai staff fod bylchau yn y gwasanaethau, yr hyn y soniwyd amdano amlaf yn ein harolygon oedd y teimlad nad oedd digon o gymorth ar gyfer iechyd meddwl. Dywedodd lawer o staff fod gormod o bwysau ar CAMHS gyda rhestri aros hir mewn gwahanol ardaloedd. Dywedodd nifer o staff nad oedd ganddyn nhw unrhyw gymorth CAMHS mewnol, neu ddim digon. Clywsom yn aml hefyd fod angen cymorth o dan y trothwy y byddai CAMHS neu wasanaethau eraill fel arfer yn cael eu defnyddio, yn enwedig o ran niwro-amrywiaeth fel ADHD ac awtistiaeth, a lles a chymorth emosiynol. Dywedodd rai staff fod CAMHS ond yn gweithio gyda phlant ag anghenion uchel iawn. Os nad yw plant yn cwrdd â'r trothwy uchel hwn, ar ôl yr asesiad roedd staff YJS yn gorfod darparu ymyriadau nad oeddent yn teimlo'n gymwys i'w darparu. Cawsom hefyd nifer o sylwadau gan staff a ddywedodd fod diffyg therapi iaith a lleferydd yn eu hardal.

Cyfeiriodd staff hefyd at fylchau gwasanaeth i gefnogi iechyd corfforol a chyffredinol plant. Dywedodd sawl un fod ganddyn nhw fynediad at nyrs fewnol ond dim ond am ddiwrnod neu ddau'r wythnos, oedd ddim yn ddigon i ateb anghenion y plant. Nid oedd gan staff eraill nyrs fewnol ond yn nodi bod angen un. Fel gydag iechyd meddwl, yn aml iawn roedd diffyg ymyriadau a'r gwasanaethau iechyd ond yn darparu gwasanaeth sgrinio, heblaw yn achos plant gyda'r anghenion mwyaf. Cyfeiriodd staff hefyd at ddiffyg gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol fel pethau a oedd ar gael i'r YJS o'r blaen ond a oedd bellach wedi mynd.

Bwlch cyffredin iawn arall oedd darpariaeth addysg. Roedd y problemau'n amrywio ond roedd llawer o staff eisiau mwy o gymorth mewnol, er enghraifft gan seicolegydd addysgol neu swyddog lles addysg. Yr hyn a glywsom yn aml oedd diffyg darpariaeth addysgol, yn

enwedig i blant na allent fynychu addysg prif ffrwd neu oedd ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Yn gysylltiedig â'r bylchau addysg oedd diffyg adnoddau addysg, hyfforddiant a gwaith (ETE) i bobl ifanc 16+ oed, yn enwedig lle'r oedd ganddyn nhw anghenion ychwanegol, ac i blant nad oedden nhw mewn addysg, hyfforddiant na gwaith (NEET), a diffyg gwasanaeth gyrfaoedd i gyfeirio'r plant hyn atynt. Soniodd rai ardaloedd hefyd am ddiffyg cyfleoedd swyddi yn eu hardal i blant ymgeisio amdanynt.


Dywedodd rai staff fod cyfathrebu a gweithio gyda'r gwasanaethau plant yn heriol, gyda nifer o ymarferwyr yn awgrymu bod y gwasanaethau plant yn anodd eu cyrraedd, ddim yn dychwelyd galwadau ffôn neu gyda throsiant staff oedd yn gwneud adeiladu perthynas waith yn anoddach.  Dywedodd rai staff fod y gwasanaethau plant eu hunain o dan bwysau sylweddol iawn.

## Gwybodaeth a chyfleusterau

Wrth arolygu gwybodaeth a chyfleusterau, disgwyliwn i wybodaeth amserol a pherthnasol fod ar gael a chyfleusterau priodol yn eu lle i gynorthwyo dull ymatebol, ansawdd uchel ac wedi ei bersonoleiddio o weithio gyda phob plentyn. Ystyriwn a oes polisïau a chanllawiau priodol yn eu lle ac a yw amgylchedd yr YJS yn cwrdd ag anghenion yr holl blant a chynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel. Ystyriwn hefyd a oes systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau ac a yw'r YJS yn defnyddio dadansoddi, tystiolaeth a dysgu'n effeithiol i wneud gwelliannau.

Roedd yn dda gweld yn 2022 bod 79% o wasanaethau a arolygwyd wedi eu sgorio fel 'da' neu 'rhagorol' ar y safon hon – y gyfran uchaf mewn pedair blynedd. Sgoriwyd pedwar gwasanaeth fel 'rhagorol'.

**Ffigwr 6: Dosbarthiad sgoriau gwybodaeth a chyfleusterau rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022**




Yn yr ardaloedd a sgoriwyd fel 'rhagorol', roedd y cyfleusterau YJS o ansawdd uchel. Roedd yr adeiladau a ddefnyddiwyd i weld plant yn groesawus, diogel a phlentyn-gyfeillgar. Mewn rhai o'r ardaloedd hyn, roedd y plant wedi cyfrannu at ddyluniad mewnol yr adeiladau a'r amwynderau gan sicrhau eu bod yn groesawus a hygyrch gan helpu i annog y plant i fynychu. Gwelsom lefydd oedd wedi cael eu datblygu'n benodol ar gyfer merched a

chyfleusterau'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd i blant gael cymryd rhan mewn gweithgareddau fel crefft, gwaith coed, crochenwaith a choginio. Gwelsom hefyd rai ardaloedd awyr agored rhagorol yr oedd plant wedi helpu i'w datblygu, gan gynnwys llefydd i eistedd dan do, murluniau a gerddi llysiau a blodau.

Roedd tystiolaeth o wasanaethau YJS yn defnyddio dysgu ac ymchwil yn barhaus i ddatblygu'r hyn y gallent ei gynnig. Gwnaed defnydd da o dechnoleg, fel arolygon ar-lein, i annog cyfranogiad plant a theuluoedd a chasglu adborth ganddynt, er mwyn goleuo a dylanwadu ar y ddarpariaeth. Roedd diwylliant o ddysgu'n cael ei hyrwyddo, gyda fframweithiau sicrhau ansawdd trylwyr yn eu lle i asesu safon y gwaith yn gywir. Roedd systemau TG yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac integredig a gallai staff gael gafael ar wybodaeth allweddol pan fo angen. Roedd cyfres gynhwysfawr o bolisïau yn eu lle oedd yn cael eu diweddaru'n gyson ac yn hygyrch i staff.

Yn yr ardaloedd a sgoriwyd fel 'angen gwella' neu 'anfoddhaol', fel arfer ni wyddai staff yr YJS sut i gael gafael ar wasanaethau a darparwyr priodol. Roedd y TG yn aml yn hen, mynediad at y dechnoleg yn gyfyngedig ac ni chefnogai weithio o bell. Nid oedd gan yr YJS y prosesau a / neu'r adnoddau i ddeall ansawdd yr ymarfer oedd yn cael ei ddarparu ac nid oedd y systemau perfformiad a sicrhau ansawdd yn gyrru gwelliannau'n ddigonol.

Ar draws y rhaglen arolygu roedd nifer o dueddiadau o ran datblygiadau TG oedd yn cefnogi gwasanaethau. Gwelsom bresenoldeb gwell yng nghyfarfodydd byrddau rheoli'r YJS, oedd yn cael ei briodoli i'r defnydd eang o dechnoleg cyfarfodydd ar-lein. Roedd canllawiau'r YJS a datblygu templed safonol ar gyfer cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol wedi bod yn fanteisiol i sicrhau cysondeb o ran ansawdd y cynlluniau hyn. Gwelsom hefyd ymwybyddiaeth gynyddol o'n safonau arolygu, canfyddiadau arolygiadau thematig a chanllawiau ymarfer effeithiol, oedd ar gael drwy fynd i wefan Arolygiaeth Prawf EM.

# Goruchwylio gorchmynion llys

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Crynhown ein canfyddiadau allweddol o’r gwaith a wneir gyda phlant ar orchymyn llys fel a ganlyn:

| |
|---|
| Mae gwasanaethau YJS yn parhau i gael mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau |
| Mae cyfran gynyddol o blant sy’n destun gorchymyn llys yn cyflwyno risg ddifrifol o niwed i eraill, neu wedi cyflawni troseddau treisgar |
| Mae’r gwaith hyrwyddo ymatal ar y cyfan yn gryfach na’r gwaith diogelwch a lles a risg o niwed i eraill, a gwasanaethau YJS gydag ymarfer aneffeithiol i reoli diogelwch a lles, a risgiau’n gysylltiedig ag achosi niwed i eraill, yn tueddu i dderbyn canlyniadau arolygu salach. |
| Mae trosolwg effeithiol gan reolwyr yn greiddiol i ymarfer effeithiol. |
| Mae angen i gynllunio wrth gefn fod yn benodol i’r plentyn gan ddisgrifio camau gweithredu clir wedi eu teilwrio a sut i ymateb os yw risg a phryderon yn cynyddu. |
| Mae angen rhoi mwy o sylw i anghenion dioddefwyr. |
| Mae staff ymroddedig sy’n gwneud eu gorau i ddatblygu cryfderau a ffactorau gwarchodol, ac i gynnwys ac annog y plentyn, yn ganolog i YJS llwyddiannus. |


Mae goruchwylio plant sy’n destun gorchymyn llys yn rhan ganolog o waith gwasanaeth YJS. Mae troseddau’r plant hyn yn aml yn rhy ddifrifol i gael eu hystyried ar gyfer achos allan-o-lys ac efallai bod y llys wedi rhoi, neu’n ystyried rhoi, dedfryd o garchar i lawer ohonynt. Mae lleihad cyson wedi bod yn nifer y plant sy’n derbyn dedfrydau o garchar a dedfrydau cymunedol. Yn y pedair blynedd diwethaf, gwelsom duedd i lwythi achosion YJS symud i ffwrdd o orchmynion llys at waith allan-o-lys yn bennaf. Mae’r plant sy’n aros ar orchmynion llys yn aml yn gymhleth ac yn cyflwyno nifer o wahanol risgiau, gyda phryderon sylweddol am eu diogelwch a’u lles hefyd, ac mae gwaith llys yn parhau i fod yn rhan greiddiol o’r gwaith a wneir gan y gwasanaethau YJS. Ar gyfartaledd erbyn hyn, mae gorchmynion llys yn cyfrif am lai na hanner o lwythi achosion yr YJS.

Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022 roedd bron i 11,400 o achosion yng Nghymru a Lloegr pryd y dedfrydwyd plant mewn llys, sy’n 7% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn

parhau'r lleihad a welsom dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae pandemig Covid-19 yn ymddangos i fod wedi cyflymu'r duedd hon, ond mae'n cyd-ddigwydd hefyd â ffocws cynyddol ar droi plant draw, ar bob cyfle priodol, o'r system cyfiawnder ieuenctid ffurfiol, a chynnydd mewn defnyddio atebion cymunedol ac (yn fwy diweddar) Canlyniad 22. Er hyn, mae oedi sylweddol o hyd o ran yr amser y mae'n ei gymryd rhwng plentyn yn cyflawni trosedd a chael ei ddedfrydu (cwblhau), oedd yn 217 diwrnod ar gyfartaledd am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2022 – i fyny o 98 diwrnod am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2012.

Mae ein safonau arolygu ar gyfer achosion llys yn seiliedig ar fodel ASPIRE ar gyfer goruchwylio achosion. Ystyriwn ansawdd y gwaith (i) cefnogi ymatal; (ii) cadw'r plentyn yn ddiogel; a (iii) cadw pobl eraill yn ddiogel, ar draws yr elfennau asesu, cynllunio, ymyrryd a darparu, ac adolygu.


Ar gyfer pob safon, mae'r sgôr a roddwn wedi ei gysylltu i'r cwestiwn ansawdd allweddol sy'n derbyn y sgôr isaf o ran y ganran o achosion a arolygwyd a sgoriwyd fel boddhaol am gefnogi ymatal, cadw'r plentyn yn ddiogel, a chadw pobl eraill yn ddiogel. Mae hyn yn cydnabod bod pob elfen yn chwarae rôl yr un mor bwysig mewn gweithio gyda phlant dan ofal cyfiawnder ieuenctid. Asesir pob achos yn ôl pa mor foddhaol yw'r elfennau allweddol hyn gyda data'r achos yn cael ei gyfuno i roi sgôr cyffredinol ar gyfer pob safon:




| Band isaf | Sgôr |
|---|---|
| Lleiafrif < 50% o achosion | Anfoddhaol |
| Rhy ychydig: 50 – 64% | Angen gwella |
| Mwyafrif rhesymol: 65-79% | Da |
| Mwyafrif mawr: 80%+ | Rhagorol |

Mae Ffigwr 7 yn cyfuno'r sgoriau ar draws pob un o'r pedwar elfen o asesu, cynllunio, ymyrryd ac adolygu. Dengys yn gyffredinol, ar gyfer pob safon, y sgoriwyd bron i ddau o bob tri gwasanaeth YJS fel 'rhagorol' neu 'da' ac ychydig dros draean fel 'angen gwella' neu 'anfoddhaol'. Roedd y cyfrannau a sgoriwyd fel 'rhagorol' neu 'da' yn amrywio'n sylweddol a sgoriwyd rhwng un a thri gwasanaeth fel 'anfoddhaol' ar bob safon.

**Ffigwr 7: Dosbarthiad sgoriau ar draws pob un o'r safonau achosion llys, 2021/2022**




Wrth asesu pob achos yn erbyn pob un o'r achosion hyn, mae ein harolygwyr yn dyfarnu yn erbyn tri chwestiwn allweddol:

- A yw'r gwaith o asesu, cynllunio, gweithredu dedfrydau ac adolygu'n cynorthwyo'r plentyn i ymatal rhag troseddu ymhellach?
- A yw'r gwaith o asesu, cynllunio, gweithredu dedfrydau ac adolygu'n cadw'r plentyn ei hun yn ddiogel?
- A yw'r gwaith o asesu, cynllunio, gweithredu dedfrydau ac adolygu'n cadw pobl eraill yn ddiogel rhag y risg bosib y gallai'r plentyn ei gyflwyno iddyn nhw?

Gellir plotio tueddiadau'r sgoriau cyfunol ar gyfer y cwestiynau allweddol hyn i weld a yw ansawdd y gwaith achos yn yr achosion a arolygwn wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, a dangosir y data hwn yn yr adrannau sy'n dilyn.

## Asesu

Wrth ystyried asesu mewn arolygiad, disgwyliwn i waith asesu fod yn seiliedig ar wybodaeth drylwyr, yn ddadansoddol ac wedi ei bersonoleiddio, a chynnwys y plentyn yn ogystal â'r rhieni neu ofalwyr. Mae asesu'n cynnwys yr holl waith asesu, nid dim ond paratoi adroddiad ysgrifenedig. Disgwyliwn weld gwaith asesu sy'n dadansoddi'n drylwyr sut i gynorthwyo plentyn i ymatal a sut i gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel. Ystyriwn a ddadansoddwyd materion amrywiaeth y plentyn yn ddigonol, a ddefnyddiwyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill yn effeithiol ac a oedd ffocws ar gryfderau a ffactorau gwarchodol y plentyn, yn ogystal ag asesu unrhyw rwystrau sy'n wynebu'r plentyn. Disgwyliwn hefyd weld ymarferwyr yn ystyried anghenion a dymuniadau'r dioddefwr a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol.

O'r 33 YJS a arolygwyd, sgoriwyd 32 yn erbyn ein safonau ar gyfer achosion llys. Roedd gan un YJS lai na chwe achos yn y sampl ac felly ni ellid ei sgorio. O'r 32 gwasanaeth arall, sgoriwyd 9 fel 'rhagorol', 11 fel 'da', 10 fel 'angen gwella' a dau fel 'anfoddhaol' ar eu gwaith asesu.


Roedd gan ardaloedd a sgoriwyd fel 'rhagorol' am eu gwaith asesu nodweddion cyffredin gan gynnwys defnydd trylwyr o wahanol ffynonellau gwybodaeth, tystiolaeth o gofnodi llais y plentyn a dull o weithio oedd yn cydbwyso risgiau a phryderon gyda chryfderau a ffactorau gwarchodol. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd y gwaith asesu'n canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau gwarchodol (92% neu 338 o achosion).

Mae cynnwys y plant a'u rhieni neu ofalwyr yn parhau i fod yn un o gryfderau'r gwaith asesu. Yn y rhan fwyaf o achosion a adolygwyd, roedd yr ymarferwyr yn fedrus wrth ddatblygu a chynnal perthynas bositif â'r plant a'u teuluoedd, oedd yn annog ymgysylltu. Gwelsom ymdrechion dyfalbarhaus ac ymarfer sy'n rhoi'r plentyn yn y canol, fel bod eu llais yn cael ei glywed ac yn dod trwodd yn glir yn y gwaith asesu. Roedd plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y gwaith asesu bron ym mhob un o'r achosion a adolygwyd.

Wrth asesu risg o niwed i eraill, a diogelwch a lles y plant eu hunain, roedd nifer o themâu cyffredin yn bresennol yn y gwaith mwyaf effeithiol a welsom. Roedd y rhain yn cynnwys gallu adnabod yr holl ganlyniadau niweidiol a risgiau posib y gallai'r plentyn ei gyflwyno, a dealltwriaeth glir o natur y rhain a'u cyd-destun posib. Roedd ymarferwyr yn fedrus gydag adnabod a deall cymhlethdodau'r risgiau gan / i'r plentyn, gan gynnwys profiadau niweidiol mewn plentyndod (ACE), ecsbloetio, a risgiau eraill y tu allan i'r teulu.

Dengys data o'r pedair blynedd diwethaf fod elfen ymateb y gwaith asesu – wedi ei chysylltu i adnabod yr anghenion sylfaenol sydd fwyaf cysylltiedig â throseddu – wedi ei chyflawni'n gyson dda. Roedd dros 80% o'r achosion yn gyffredinol foddhaol ar yr elfen ymarfer hon. Gwaith ar asesu'r risg o niwed i eraill oedd y gwendid mwyaf er bod yr elfen hon yn dal i fod yn foddhaol mewn dros 70% o'r achosion yn yr arolygiadau a ystyrir yn yr adroddiad hwn.[14]

**Ffigwr 8: Achosion llys – % o achosion a sgoriwyd fel boddhaol yn erbyn cwestiynau allweddol ar ansawdd yr asesu, Hydref 2018 - Hydref 2022**




[14] Dylid nodi bod ein methodoleg wedi newid ym mis Gorffennaf 2021; felly mae dwy set o ddata ar gyfer 2021: un ar gyfer cyn i'r fethodoleg newid, ac un ar gyfer wedyn.


## Adnabod pryderon am ddiogelwch plant

Roedd ein Bwletin Ymchwil a Dadansoddi (Medi 2022) yn canolbwyntio ar gam asesu gwaith cyfiawnder ieuenctid. Ystyriwyd y mathau o bryderon diogelwch a wynebir gan blant, yn ogystal â rhai a gyflwynir gan y plant eu hunain, gan roi enghreifftiau o beth yw asesu da. Rhoesom hefyd rai o'r prif resymau pam y barnodd arolygwyr fod rhai dosbarthiadau diogelwch yn anghywir.

> *'Mae'n glir bod asesu trylwyr yn fwy tebygol o ddigwydd os yw rheolwyr achos YJS yn cael eu cefnogi'n sefydliadol gan drefniadau partneriaeth cryf ag asiantaethau statudol, cymunedol a gwirfoddol sy'n hwyluso llif gwybodaeth da... Cynorthwyir asesu trylwyr ymhellach os bydd gan reolwyr achos amser i fyfyrio ac adolygu eu hymarfer gyda rheolwyr a chydweithwyr ac os ydyn nhw'n dangos chwilfrydedd proffesiynol a meddylfryd o ddadansoddi wrth geisio deall bywyd y plentyn.'*

Mae'r bwletin yn pwysleisio nad yw deall a lleihau'r pryderon diogelwch y mae plentyn yn ei wynebu, ac y gallai'r plentyn ei hun ei gyflwyno, yn tanseilio o gwbl y gwaith adeiladol ac ymgeleddus y dylid ei wneud gyda phlant i feithrin eu datblygiad positif. Pwysleisir hefyd fod y pryderon diogelwch am y plant eu hunain, ac am bobl eraill (fel arfer plant eraill) yn aml yn gweu i'w gilydd ac yn cysylltu i nifer o faterion eraill fel cario cyllyll neu arfau eraill, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, adfyd a thrawma, cam-drin domestig, profiad o fod mewn gofal, ecsbloetio troseddol, a materion iechyd meddwl. Roedd tri chwarter yr achosion a aseswyd gan ein harolygwyr i fod yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed i eraill yn ymwneud â phryderon sylweddol neu sylweddol iawn am ddiogelwch a lles y plant eu hunain.

**Ffigwr 9: Dosbarthiadau diogelwch a lles yn ôl dosbarthiad risg o niwed difrifol i eraill**




Mae deall, asesu a dadansoddi pryderon am ddiogelwch a lles plant, a'r risg a gyflwynir ganddynt i eraill, felly'n hanfodol i'r gwaith a wneir gan wasanaethau YJS.

Yn yr ardaloedd a sgoriwyd fel 'anfoddhaol' neu 'angen gwella', yn aml iawn y dyfarniadau ar y risg i'r plentyn / gan y plentyn a arweiniodd at y sgôr is. Er bod ymatal yn elfen gyson

gref, roedd yn gyffredin nodi na wnaeth yr ymarferydd ddadansoddi'n foddhaol y canlyniadau niweidiol a'r risg bosib oddi wrth y plentyn, ac roedd y dosbarthiadau risg a diogelwch yn tanseilio'r pryderon. Yn yr ardaloedd a sgoriwyd yn is, ni ofynnir am ac ni ddadansoddir gwybodaeth gan wasanaethau eraill bob tro. Pan fydd ymarferwyr yn derbyn yr wybodaeth yma, nid oeddent bob tro'n ystyried ymddygiad blaenorol i oleuo eu dadansoddiad.

Mae angen datblygu'r gwaith gyda dioddefwyr i sicrhau yr ystyrir eu hanghenion a'u dymuniadau yn gyson a bod cynllunio a darparu'n hyrwyddo diogelwch dioddefwyr a darpar ddioddefwyr. Roedd asesiadau ond yn rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr mewn 61% (226) o achosion.

## Cynllunio

Wrth ystyried cynllunio, disgwyliwn i'r gwaith fod yn holistig, wedi ei bersonoleiddio a seiliedig ar wybodaeth drylwyr a chynnwys y plentyn, rhieni / gofalwyr yn bwrpasol.

O'r 32 YJS a sgoriwyd ar eu gwaith achosion llys yn 2022, sgoriwyd 5 fel 'rhagorol', 15 fel 'da', 9 fel 'angen gwella' a thri fel 'anfoddhaol' ar gyfer cynllunio.

Yn yr ardaloedd hynny a sgoriwyd fel 'rhagorol' am gynllunio, roedd cynhwysiant y plentyn a'r rhieni neu ofalwyr wrth gynllunio'n ardderchog, yn enwedig o ran risg o niwed i eraill ac wrth gynllunio i gefnogi diogelwch a lles plentyn ynghyd â dull cytbwys o fynd i'r afael â phryderon ac adeiladu ar gryfderau. Roedd gwasanaethau YJS yn cyplysu cynlluniau'r plant yn fedrus i gynlluniau eraill (fel cynlluniau amddiffyn plant) gan ddisgrifio rolau gwasanaethau eraill yn glir. Roedd nodweddion eraill yn cynnwys targedau realistig hawdd i'w deall ac wedi eu teilwrio i'r plentyn.


Mewn llawer o wasanaethau a sgoriwyd fel 'anfoddhaol' neu 'angen gwella', roedd y cynllunio wedi ei danseilio gan asesu gwael oherwydd nad oedd anghenion a risgiau'r plentyn wedi cael eu hadnabod neu ddadansoddi'n effeithiol ac felly heb drosi'n gynlluniau effeithiol. Roedd diffyg manylion sylfaenol yn y cynlluniau, gan gynnwys targedau clir a phenodol yn nodi sut a phwy a fyddai'n darparu'r gwaith i gwrdd â'r targedau. Rhestr fras o gamau gweithredu oedd hyn yn aml, heb eu teilwrio i'r plentyn na'i anghenion.

Roedd cynllunio wrth gefn yn parhau i fod angen ei wella neu ddatblygu, hyd yn oed mewn rhai ardaloedd a sgoriwyd fel 'rhagorol'. Fel arfer roedd hyn oherwydd nad oedd cynlluniau wrth gefn wedi eu teilwrio i anghenion neu risgiau penodol y plentyn ond yn hytrach yn eithaf cyffredinol a heb ystyried y camau y dylid eu cymryd pe bai'r risg yn newid neu gynyddu. Roedd y cynlluniau wrth gefn yn foddhaol ar ddiogelwch a lles dim ond mewn 53% o achosion (nid oedd angen cynllunio ar 3%) ac mewn 50% o'r holl achosion ar risg o niwed (nid oedd angen cynllunio ar 4%).

Lle'r oedd gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn aneffeithiol, roedd y ffactorau cyffredin yn cynnwys cynllunio heb ei gysylltu i gynlluniau eraill, fel cynllun plentyn mewn angen, neu ddiffyg dull cydweithredol wrth weithio â gwasanaethau eraill. Roedd angen gwneud mwy o ymdrech i weithio'n aml-asiantaethol a chydlynus â gwasanaethau eraill i hyrwyddo diogelwch y plentyn ac eraill. Roedd themâu cyffredin eraill yn cynnwys diffyg cydgyfrifoldeb neu atebolrwydd am reoli risg a diogelwch, a diffyg rhannu gwybodaeth gyda, a gan, yr YJS.

Dengys data o'r pedair blynedd diwethaf sgoriau ychydig yn is ar gyfer ein cwestiynau ansawdd ar gynllunio, yn enwedig cynllunio wedi ei gysylltu i risg o niwed i eraill lle y mae cyfran o achosion a sgoriwyd fel boddhaol wedi amrywio rhwng 55% a 68%.

**Ffigwr 10: Achosion llys – % o achosion a sgoriwyd fel boddhaol yn erbyn cwestiynau allweddol ar gynllunio**




## Gweithredu a darparu

Wrth ystyried gweithredu a darparu, disgwyliwn i wasanaethau YJS ddarparu gwasanaethau cydlynus, penodol ac wedi eu personoleiddio sy'n cynnwys a chynorthwyo'r plentyn. Disgwyliwn weld gwasanaeth yn adeiladu ar gryfderau a ffactorau gwarchodol plentyn. Disgwyliwn hefyd i wasanaeth hyrwyddo cyfleoedd i integreiddio yn y gymuned ac ystyried mynediad at wasanaethau i'r plentyn pan ddaw'r gorchymyn llys i ben.


O'r 32 gwasanaeth a sgoriwyd yn erbyn y safon hon ar gyfer achosion llys, sgoriwyd 14 fel 'rhagorol', 5 fel 'da', 12 fel 'angen gwella' ac un fel 'anfoddhaol' ar weithredu a darparu.

Roedd gan yr ardaloedd a sgoriwyd fel 'rhagorol' themâu cyffredin o ymrwymiad ac ymroddiad i blant gydag ymyriadau wedi eu teilwrio i anghenion y plentyn ac i hyrwyddo ymatal. Roedd cydgysylltu da â gweithwyr proffesiynol eraill gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch y plentyn, a lle'r oedd angen, i ddiogelwch dioddefwyr a darpar ddioddefwyr. Hefyd, roedd mynediad sydyn a hawdd at amrywiaeth o wasanaethau i gwrdd ag anghenion. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau i roi sylw i bryderon ac adeiladu ar ffactorau gwarchodol fel mentoriaid, chwaraeon, iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol a meddwl, camddefnyddio sylweddol a SALT.

Fel gydag asesu, roedd y gwaith ymatal yn gyson foddhaol ar ymyrryd a darparu ond roedd gwaith darparu i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel yn denu sgoriau 'anfoddhaol' ac 'angen gwella' yn yr ardaloedd lle'r oeddem o'r farn bod y gwaith ymyrryd a darparu'n anfoddhaol. Roedd themâu cyffredin yn yr ardaloedd hyn yn cynnwys cydlynu gwael rhwng gwasanaethau, fel diffyg rhannu gwybodaeth neu ddiffyg cyd-atebolrwydd. Mewn llawer o wasanaethau, roedd dulliau hyrwyddo risg a diogelwch heb ddatblygu digon a'r monitro'n anghyson.

Mae cyfran yr achosion a sgoriwyd yn foddhaol yn erbyn ein cwestiynau ansawdd allweddol ar weithredu wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, ond gwelsom berfformiad cryf yn 2022 gyda phob un o'r tri chwestiwn allweddol yn sgorio'n foddhaol mewn o leiaf 73% o achosion.

**Ffigwr 11: Achosion llys – % o achosion a sgoriwyd fel boddhaol yn erbyn cwestiynau allweddol ar weithredu a darparu**




## Adolygu


Wrth arolygu gwaith adolygu, disgwyliwn weld adolygiadau cynnydd dadansoddol, wedi eu personoleiddio a seiliedig ar wybodaeth drylwyr sy'n cynnwys y plentyn a'r rhieni neu ofalwyr yn bwrpasol.

O'r 32 YJS a sgoriwyd ar eu gwaith achosion llys, sgoriwyd 10 fel 'rhagorol', 9 fel 'da', 10 fel 'angen gwella' a thri fel 'anfoddhaol' ar gyfer adolygu.

Roedd gan yr ardaloedd 'rhagorol' nodweddion cyffredin gan gynnwys adolygu rhagweithiol oedd yn cynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr er mwyn holi eu barn am y cynnydd, ac addasu'r gwaith wrth symud ymlaen i ateb unrhyw anghenion newydd gan y plentyn. Problem gyffredin yn yr ardaloedd 'anfoddhaol' oedd nad oedd ymarferwyr bob amser yn adnabod newidiadau a oedd yn cynyddu risg i neu gan y plentyn ac nid oedd yr ymateb felly'n rheoli neu liniaru'r risg na'n hyrwyddo diogelwch y plentyn yn effeithiol. Roedd cynllunio gwael wrth gefn ar gyfer rhai gwasanaethau'n cael effaith wedyn ar adolygu, er enghraifft lle'r oedd risg yn newid, nid oedd y cynllun wrth gefn yn cynnwys digon o fanylion am ba gamau i'w cymryd / sut i ymateb i hyn.

Roedd y sgoriau cyfunol ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol ar y safon hon yn 2022 ymhlith rhai o'r cryfaf yn y pedair blynedd diwethaf.

**Ffigwr 12: Achosion llys – % o achosion a sgoriwyd fel boddhaol yn erbyn cwestiynau allweddol ar adolygu**




## Trefniadau aml-asiantaethol amddiffyn y cyhoedd

Mae MAPPA yn eu lle i hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio effeithiol rhwng asiantaethau i reoli unigolion peryglus. Er y gall asiantaethau cyfiawnder troseddol byth ddileu'r risg, mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r posibilrwydd y gall unigolion a gyflawnodd droseddau treisgar neu rywiol difrifol achosi niwed pellach. Mewn cyfiawnder ieuenctid, mae achosion sy'n cwrdd â throthwy MAPPA yn brin – bydd rhai gwasanaethau ac ymarferwyr efallai byth yn gweld achos o'r fath a bydd gan eraill fwy o brofiad o achosion risg lefel uwch. Ystyrir y rhain i fod yn 'achosion risg uwch prin' ac felly nid ydym yn disgwyl dod ar draws llawer ohonynt.

Mae'r cyfrifoldeb am weithredu MAPPA yn gorwedd gyda'r heddlu, prawf a'r carchardai. Mae gan wasanaethau YJS ddyletswydd i gydweithredu (DTC). Rydym ni wedi gwneud adolygiad thematig o MAPPA,[15] gan ganolbwyntio ar waith gydag oedolion, ond un o'r canfyddiadau oedd bod angen cynrychiolaeth briodol gan yr YJS ar y byrddau rheoli strategol (SMB). Hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud:


> 'Roedd pob un o'r byrddau SMB yn cwrdd yn rheolaidd, gyda chynrychiolaeth gan asiantaethau DTC allweddol. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn enwebu un cynrychiolydd ar gyfer mwy nag un arbenigedd oherwydd pwysau ar adnoddau, er enghraifft gofal cymdeithasol plant a chyfiawnder ieuenctid, sy'n ddi-fudd oherwydd nad oeddent yn hollol gymwys i siarad ar ran y ddau wasanaeth.'

Er y nifer isel o achosion cymwys, mae gwybodaeth am a defnyddio MAPPA yn swyddogaeth gwarchod y cyhoedd hanfodol i'r YJS. Disgwyliwn felly i bob gwasanaeth fod â threfniadau effeithiol yn eu lle i adnabod achosion posib ac i staff fod â chysylltiadau addas a gwybodaeth i ddelio â'r broses atgyfeirio ac er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o'r gwaith aml-asiantaethol hwn. Mae'n bwysig bod gweithwyr yn deall y fframwaith statudol hwn ar lefel strategol a gweithredol. Er y gellir ategu'r gwaith o reoli achosion MAPPA drwy systemau risg aml-asiantaethol eraill, ni ddylid ei ddisodli.

---

[15] Arolygiaeth Prawf EM (2022). Ugain mlynedd yn ddiweddarach, yw MAPPA yn cyflawni ei amcanion? https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/mappa-thematic/

**Ffigwr 13: Canran o achosion llys MAPPA lle yr aseswyd bod y cwestiynau cyffredinol ar safonau'n foddhaol, yn ôl gwaith ymatal, diogelwch a risg o niwed.**




Aseswyd bod ansawdd y gwaith mewn achosion MAPPA yn foddhaol yn erbyn ein safonau mewn cyfran dda o achosion, yn enwedig o ran risg o niwed i eraill. Fodd bynnag, mae angen i ansawdd y gwaith o adolygu risg o niwed i eraill fod yn gyson ag ansawdd y gwaith o adolygu ymatal.

Roedd gan rai gwasanaethau a arolygwyd systemau MAPPA effeithiol.

**Enghraifft ymarfer da**

Yn Bolton, gwelsom brosesau rheoli risg effeithiol a staff a rheolwyr oedd â dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau gwarchod y cyhoedd. Disgrifiodd ymarferwyr y cyfarfodydd rheoli risg aml-asiantaethol (MARM) fel ffordd dda o rannu gwybodaeth. Roeddent yn gyfle i asiantaethau ddod at ei gilydd i gyfrannu at a derbyn cydgyfrifoldeb am reoli'r risg. Roedd defnydd da o MAPPA mewn achosion perthnasol. Disgrifiodd gadeirydd MAPPA fod y broses yn gweithio'n dda i ateb anghenion cymhleth a risg uchel y plant. Mewn un achos, roedd rôl MAPPA wedi bod yn allweddol i helpu'r gwasanaethau i adnabod ac ariannu lle mewn uned iechyd meddwl arbenigol. Roedd achosion ar gyfer MAPPA yn cael eu hadnabod yn brydlon fel bo'r holl bartïon perthnasol yn mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd cynllunio aml-asiantaethol.

Mewn rhai achosion, ar gyfer gwasanaethau eraill, tynnwn sylw at bethau oedd angen gwella:

> 'Mae angen diweddaru'r cytundeb rhannu gwybodaeth am MAPPA. Mae angen adolygu hyn ar frys i sicrhau bod y trefniadau rhannu gwybodaeth yn addas i'r pwrpas.'

> 'Er mai'r rheolwr gwasanaeth yw'r arweinydd strategol ar MAPPA os yw swyddog prawf yn absennol, roedd arolygwyr wedi nodi bod gwybodaeth staff o'r prosesau'n brin ac angen ei ddatblygu.'

# Cosbau allan-o-lys

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Crynhown ein canfyddiadau allweddol o’r gwaith a wneir gyda phlant sy’n destun cosbau allan-o-lys fel a ganlyn:

| |
|---|
| Mae nifer gynyddol o blant yn destun proses allan-o-lys ond mae’r prosesau penderfynu’n cael eu dylunio’n lleol ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw dempled cenedlaethol clir. |
| Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd drefniadau ymgynghori yn eu lle sy’n cynnwys yr YJS, heddlu a sefydliadau perthnasol eraill mewn cytuno ar ganlyniad pob achos heblaw’r troseddau lleiaf. |
| Casglodd arolygwyr fod y panel, mewn 92% o achosion, wedi cytuno’r gosb allan-o-lys heb fod angen uwchgyfeirio’r achos |
| Roedd gormod o achosion lle’r oedd yr YJS wedi dosbarthu lefel anghenion diogelwch a lles y plentyn, a risg niwed difrifol y plentyn i eraill, yn anghywir |
| Mewn rhai gwasanaethau YJS, ni wyddai rheolwyr achosion ddim am yr achos nes ei fod wedi ei ddyrannu iddynt, ar ôl i’r penderfyniad am y gosb gael ei wneud |
| Roedd agenda llawer o gyfarfodydd byrddau rheoli’n aml yn trafod, fel blaenoriaeth, amrywiaeth a’r nifer anghymesur o blant Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig |

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelsom gynnydd sylweddol yn y defnydd o gosbau i gadw plant allan o lys a llai o blant yn destun gorchmynion statudol. Er i bandemig Covid-19 yn amlwg gael effaith ar (a chyflymu) y duedd hon, mae hefyd wedi ei dylanwadu gan newidiadau polisi a strategol allweddol i’r pwrpas o sicrhau bod plant yn cael eu harallgyfeirio o’r system cyfiawnder ieuenctid lle bo’n briodol, ac i osgoi troi plant yn droseddwyr yn ddiangen.

O’r egwyddorion cyffredinol yn *Sentencing Children and Young People 2017*, sy’n nodi’n glir pa mor bwysig yw osgoi troi plant yn droseddwyr yn ddiangen, i ffocws yr YJB ar roi’r ‘plentyn yn gyntaf’ a’r fframwaith ymarfer gorau ar gyfer plismona plentyn-ganolog yn 2021, mae blaenoriaeth amlwg wedi ei rhoi i achub ar bob cyfle posib i arallgyfeirio plant o droseddu.

O ganlyniad, dechreuodd wasanaethau YJS ddatblygu amrywiaeth eang o opsiynau i’w cynnig fel cosbau allan-o-lys a gwyddom fod yr achosion hyn bellach yn cyfrif am gyfran lawer uwch o lwythi achosion YJS.

Fel arfer cynigir cosb allan-o-lys i blant os ydyn nhw wedi cyflawni troseddau lefel-isel, yn aml am y tro cyntaf, ac mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i’w cynnig yn lle mynd â’r achos i’r llys. Mae’r rhain yn cynnwys:

- gorchmynion cymunedol
- dim camau pellach
- Canlyniad 22 (dim camau pellach os yw gwaith arallgyfeirio neu addysgol wedi ei wneud gyda'r plentyn)
- rhybuddiad ieuenctid (cyntaf, ail a rhai wedyn)
- rhybuddiad ieuenctid amodol.

Er nad oes data cenedlaethol ar faint o'r cosbau hyn sy'n cael eu rhoi, mae ein sampl arolygu'n rhoi peth syniad o'u pwysigrwydd cymharol:

**Ffigwr 14: Mathau o gosbau allan-o-lys a adolygwyd mewn arolygiadau yn 2021/22**

| Math o gosb allan-o-lys | Nifer | % |
|---|---|---|
| Rhybuddiad ieuenctid (rhybuddiad cyntaf) | 81 | 15% |
| Rhybuddiad ieuenctid (ail rybuddiad neu rai wedyn) | 9 | 2% |
| Rhybuddiad ieuenctid amodol | 126 | 24% |
| Gorchymyn cymunedol (neu orchymyn adferol arall) | 283 | 53% |
| Aneglur, neu arall | 32 | 6% |

Yn aml iawn mae addasrwydd plentyn am gosb allan-o-lys yn benderfyniad ar-y-cyd rhwng yr YJS a'r heddlu ond rydym yn parhau i weld amrywiaeth o wahanol ymarfer ar gyfer penderfynu ar y canlyniad mwyaf addas ar ôl i blentyn gyflawni trosedd. Mae prosesau penderfynu i gytuno a fydd plentyn yn derbyn cosb allan-o-lys wedi eu dylunio'n lleol ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw dempled cenedlaethol clir ar gyfer y gwaith hwn. Fel arfer datblygir trefniadau cosbau allan-o-lys naill ai ar lefel heddlu neu YJS, gyda threfniadau'n aml yn croesi ffiniau gwasanaethau YJS neu heddluoedd cyfagos. Yn aml iawn, darperir y canlyniad lefel isaf yn uniongyrchol gan yr heddlu; ond yn gynyddol gwelwn fod gan y rhan fwyaf o ardaloedd drefniadau ymgynghori neu benderfynu ar-y-cyd rhwng yr YJS, heddlu a sefydliadau perthnasol eraill, i gytuno ar ganlyniad pob achos heblaw'r troseddau lleiaf.

Mae'r trosolwg cenedlaethol a lleol prin ac amrywiol ar gosbau allan-o-lys, ynghyd â chanllawiau wedi dyddio ar eu cyfer, wedi arwain at amrywiadau eang yn y trefniadau ar eu cyfer yng Nghymru a Lloegr, a gwelsom wahaniaeth sylweddol o ran sut y defnyddir y trefniadau hyn yn yr ardaloedd a arolygwyd dros y cyfnod hwn.  Mae hyn wedi cynnwys gwahaniaethau yn yr opsiynau sydd ar gael i'r YJS; yn yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir; yn yr ymarfer plismona ac ym mholisi a darpariaeth yr YJS; wrth benderfynu pa gosb allan-o-lys a allai fod fwyaf addas a pham; diffyg data neu ddadansoddiad o'u heffaith, effeithiolrwydd a defnydd; a defnydd anghyson o'r matrics difrifoldeb ieuenctid wrth benderfynu a yw plentyn yn gymwys ar gyfer cosb allan-o-lys.


## Sut mae ardaloedd yn penderfynu ar gosbau allan-o-lys

- Mewn 39%, gwnaed penderfyniadau ar-y-cyd rhwng yr heddlu a'r YJS.
- Mewn 5%, roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan yr heddlu'n unig.
- Mewn ychydig dros hanner yr achosion a adolygwyd, roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan banel aml-asiantaethol.

- Roedd y paneli'n aml yn cynnwys plismyn ac aelodau o'r YJS ynghyd â nifer o wasanaethau eraill fel addysg, iechyd, gwasanaethau plant a gwasanaethau dioddefwyr.
- Mewn 92% o achosion, roedd y panel yn cytuno ar ganlyniad heb fod angen uwchgyfeirio.
- Roedd penderfyniadau'n seiliedig ar broses asesu wedi ei chytuno'n lleol, yn cynnwys cyfweliad â'r plentyn mewn 79% o'r achosion i ni edrych arnynt.
- Mewn 28% o achosion, defnyddiwyd yr offeryn asesu cyfiawnder ieuenctid llawn, AssetPlus, i oleuo penderfyniad gan banel, er yn gynyddol gwelwn yr YJS yn defnyddio offeryn asesu lleol.
- Mewn 23% o achosion, roedd proses sgrinio'n cael ei chynnal. Fel arfer roedd hyn yn golygu adolygu cofnodion yr asiantaeth heb i'r plentyn, rhieni neu ofalwyr gael y cyfle i oleuo'r penderfyniad.

Gwelsom hefyd amrywiadau sylweddol yn y troseddau a difrifoldeb y troseddau yr oedd plant yn derbyn cosb allan-o-lys ar eu cyfer.


**Ffigwr 15: Cosbau allan-o-lys – mathau o drosedd**




## Safonau arolygu: cosbau allan-o-lys

Mae'r broses o arolygu cosbau allan-o-lys yn debyg i'r broses o arolygu gorchmynion llys. Dilynwn fodel ASPIRE ac adolygwn ansawdd y gwaith asesu a chynllunio, yn ogystal ag ansawdd y gwaith gweithredu a darparu. Ystyriwn hefyd waith ar gefnogi ymatal, cadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel. Fodd bynnag, ni aseswn ansawdd yr adolygu ar gyfer cosbau allan-o-lys oherwydd mae'r ymyriadau hyn yn aml yn fyr. Adolygwn ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth oherwydd rydym yn cydnabod bod prosesau allan-o-lys yn cael eu dylunio a'u gweithredu'n lleol. Gelwir yr elfen hon o'n methodoleg arolygu'n barth tri.

**Ffigwr 16: Dosbarthiad sgoriau ar draws pob un o'r safonau parth tri, 2021/2022**




## Asesu

Dros gyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, sgoriwyd 7 ardal fel 'rhagorol', 12 fel 'da', 11 fel 'angen gwella' a tri fel 'anfoddhaol'.

Mewn rhai gwasanaethau YJS, ni wyddai rheolwyr achosion ddim am yr achos nes ei fod wedi ei ddyrannu iddynt, ar ôl i'r penderfyniad am y gosb gael ei wneud. Gwelsom achosion lle'r oedd y penderfyniad am y gosb wedi ei wneud heb gynnwys y plentyn neu heb ystyried eu barn, na barn rhieni neu ofalwyr y plentyn, cyn penderfynu ar y canlyniad. Roedd hyn hefyd yn golygu bod gan reolwyr achos lai o gyfle i gwrdd a magu perthynas â'r plentyn a'u hannog i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol tan ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Gwelsom y gallai hyn gael effaith hollbwysig ar benderfyniad y plentyn i wneud y gwaith hwn neu beidio.

Mewn lleiafrif o achosion, roedd y penderfyniadau cosb wedi eu 'huwchraddio'. Er enghraifft lle'r oedd plant yn derbyn rhybuddiad ieuenctid amodol i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn ymyriad, pryd y gallai gorchymyn cymunedol fod wedi bod yn fwy addas. Gwelsom hefyd enghreifftiau o achosion a aeth ymlaen i'r llys er bod cosb allan-o-lys yn briodol.


Yn gynyddol, gwelwn ardaloedd yn defnyddio offeryn asesu lleol ar gyfer cosbau allan-o-lys ynghyd ag amrywiadau yn ansawdd yr offer asesu hyn a pha mor dda oedden nhw'n cael eu cwblhau, yn enwedig o ran dyfnder y dadansoddi ac ystyried diogelwch a lles a'r risg y gallai'r plentyn ei gyflwyno i bobl eraill. Mae anghenion, cymhlethdod a risgiau plant sy'n derbyn cosbau allan-o-lys yn amrywio ar draws sbectrwm sylweddol a gwelsom achosion lle'r oedd plant sy'n cyflwyno risg sylweddol i eraill wedi derbyn cosb allan-o-lys. Gall hyn fod yn her i wasanaethau YJS yn aml o ran taro cydbwysedd rhwng bod yn gymesur ac osgoi troseddoli'r plentyn, ond gan hefyd gydnabod y risg y gallai'r plentyn ei gyflwyno a difrifoldeb rhai o'r troseddau. Gwelsom hefyd achosion lle nad oedd pryderon am blentyn wedi cael eu hadnabod na'u hystyried yn effeithiol oherwydd y gosb 'lefel isel' a roddwyd iddynt. Mewn rhai arolygiadau, roedd rhai gwasanaethau'n cael trafferth datrys yr heriau hyn. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd rhai offer asesu (fel offeryn asesu cymorth cynnar) yn ystyried na'n rhoi cyfle i ystyried diogelwch a lles y plentyn, na'n atgoffa rheolwyr achos i

asesu risg y plentyn o achosi niwed i eraill. O'r herwydd, roedd achosion lle'r oedd y gwaith asesu'n brin o ddyfnder dadansoddi neu ddealltwriaeth.

Roedd gormod o achosion lle'r oedd yr YJS wedi dosbarthu lefel anghenion diogelwch a lles y plentyn, a risg y plentyn o achosi niwed difrifol i eraill, yn anghywir. O ran diogelwch a lles, a'r risg o achosi niwed difrifol i eraill, barnodd yr arolygwyr fod dosbarthiad y rheolwr achos yn anghywir neu ddim yn ddigon clir yn chwarter yr achosion.

**A oes gwahaniaethau yn ansawdd y gwaith asesu rhwng gorchmynion llys a chosbau allan-o-lys?**


**Ffigwr 17: Cymhariaeth rhwng sgoriau gwaith asesu ar gyfer gorchmynion llys a chosbau allan-o-lys, 2021/2022**




Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, gwelsom fod ansawdd y gwaith asesu, cynllunio a darparu ar gyfer achosion allan-o-lys yn sylweddol salach nag ar gyfer opsiynau allan-o-lys statudol (rhybuddiadau ieuenctid a rhybuddiadau ieuenctid amodol) a gorchmynion llys. Fodd bynnag, ymddengys bod y bwlch rhwng ansawdd y gwaith asesu wedi cau. Er bod llai o ardaloedd wedi eu sgorio fel 'rhagorol' am eu gwaith cosbau allan-o-lys o'i gymharu â gwaith gorchmynion llys, a mwy o ardaloedd wedi eu sgorio fel 'angen gwella', gwelsom nifer o ardaloedd wedi eu sgorio fel 'da' am asesu gorchmynion cosb allan-o-lys.

Gan edrych yn ôl dros gyfnod hirach, roedd yn galonogol gweld bod cyfran y gwaith asesu ar gyfer achosion allan-o-lys a sgoriwyd fel boddhaol yn 2022 yn erbyn ein tri chwestiwn ansawdd allweddol ar ymatal, lles a risg ymhlith yr uchaf a fuodd dros y pedair blynedd diwethaf, gydag o leiaf dau draean o achosion wedi eu sgorio fel boddhaol yn erbyn pob cwestiwn allweddol.


**Ffigwr 18: Achosion allan-o-lys – % o achosion a sgoriwyd fel boddhaol yn erbyn cwestiynau allweddol ar ansawdd yr asesu**




## Cynllunio

Gwelsom gynnydd nodedig yn nifer yr ardaloedd a sgoriwyd fel 'rhagorol' am gynllunio ar gyfer cosbau allan-o-lys, a gwelliant yn nifer y gwasanaethau YJS a sgoriwyd fel 'da', gyda llai wedi eu sgorio fel 'angen gwella' neu 'anfoddhaol'. Roedd y sgoriau cyfunol yn erbyn ein cwestiynau ansawdd allweddol ar y safon ansawdd yma'r uchaf a welsom dros y pedair blynedd diwethaf, ac yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â 2018/19.

**Ffigwr 19: Achosion allan-o-lys – % o achosion a sgoriwyd fel boddhaol yn erbyn cwestiynau allweddol ar gynllunio**





Fel gyda'r gorchmynion statudol, mae angen cryfhau'r cynllunio wrth gefn mewn llawer o'r achosion i ni eu hadolygu, i sicrhau bod ymarferwyr yn gwybod pa gamau i'w cymryd os oes newid mewn amgylchiadau, yn enwedig os oes cynnydd yn y pryderon am ddiogelwch a lles a risg plentyn o achosi niwed i eraill.

Mae hefyd angen cryfhau'r cynllunio i ryddhau, yn enwedig o gofio bod llawer o'r cosbau allan-o-lys yn rhai byr, fel bod ffocws ar integreiddio neu ailintegreiddio'r plentyn i wasanaethau prif ffrwd pan ddaw'r ymyriad YJS i ben.

## Gweithredu a darparu

Dros gyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, sgoriwyd 10 ardal fel 'rhagorol' am ansawdd eu gwaith o ddarparu cosbau allan-o-lys. Cafwyd cynnydd nodedig yn y gyfran o ardaloedd a sgoriwyd fel 'da' o'i gymharu â chyfnod adroddiad blynyddol y llynedd (16 ardal o'i gymharu â 10) a llai o ardaloedd wedi eu sgorio fel 'angen gwella' neu 'anfoddhaol' (5 o'r naill a 2 o'r llall). Sgoriwyd dros dri chwarter yr achosion fel boddhaol ar y tri chwestiwn ansawdd allweddol, a'r sgoriau hyn oedd yr uchaf dros y pedair blynedd y buom yn gofyn y cwestiynau hyn.

**Ffigwr 20: Achosion allan-o-lys – % o achosion a sgoriwyd fel boddhaol yn erbyn cwestiynau allweddol ar weithredu a darparu**




Mewn llawer o'r gwasanaethau YJS, gwelwn bellach fod plant a dderbyniodd gosb allan-o-lys yn derbyn yr un gwasanaethau ac adnoddau â phlant ar orchymyn llys statudol. Mae amrywiaeth o ymyriadau ar gael, gan gynnwys mynediad at therapydd iaith a lleferydd, CAMHS a chymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Roedd rhai gwasanaethau YJS yn gweithio gyda phlant ar gosbau allan-o-lys am gyn hired ag yr oedd angen cymorth arnynt. Er yn beth da bod cymorth ar gael i'r plant, roedd hyn yn codi cwestiynau i ni a oedd yr YJS yn gwneud gwaith a ddylai gael ei ddarparu gan bartneriaid, fel y gwasanaethau cymorth cynnar. Gwelsom hyn yn enwedig mewn awdurdodau lle nad oedd gan y gwasanaethau cymorth cynnar rôl annatod neu gyswllt i gynlluniau allan-o-lys yr YJS. Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau am ddod â phlant i gysylltiad â'r YJS (a'r system cyfiawnder ieuenctid) i dderbyn gwasanaethau taer eu hangen, yn lle gwneud y gwaith arallgyfeirio effeithiol sydd mewn golwg gan y drefn allan-o-lys.

## Polisi a darpariaeth

Mae ein safonau'n disgwyl, ar gyfer yr holl bolisïau a darpariaeth allan-o-lys, y bydd gwasanaeth cosbau allan-o-lys ansawdd uchel ar sail tystiolaeth yn ei le sy'n hyrwyddo arallgyfeirio a chefnogi ymatal cynaliadwy. Disgwyliwn weld protocol ar-y-cyd clir yn ei le gyda'r heddlu, yn disgrifio polisi ac ymarfer wedi eu cytuno'n lleol, gan gynnwys penderfyniadau ar-y-cyd y gellir eu cyfiawnhau. Disgwyliwn i wasanaethau YJS a'r heddlu sicrhau meini prawf cymhwyso clir a digon eang, i ganiatáu ar gyfer disgresiwn, ond gan osgoi taflu'r rhwyd yn ehangach (dod â mwy o blant i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid yn anfwriadol). Disgwyliwn hefyd weld polisi ac ymarfer sy'n ystyried anghenion amrywiol y plant, sy'n cadw plant yn ddiogel ac yn sicrhau diogelwch pobl eraill, ac ymarfer sy'n cael ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyson â'r dystiolaeth.

Roedd gan ardaloedd 'rhagorol' fel Caerefrog nodweddion fel:

- Protocol ar-y-cyd clir gyda'r heddlu
- Cynlluniau sefydlog yn eu lle, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

- Penderfyniadau ar-y-cyd ar ganlyniadau ac asesiadau ansawdd da sy'n cynorthwyo'r panel canlyniadau ieuenctid i wneud penderfyniadau
- Paneli sy'n disgrifio lefel a natur yr ymyriadau sydd i'w cynnig i'r plentyn ac sy'n cynnwys trafodaethau manwl am anghenion a risgiau'r plant
- Dull cyson o ddarparu
- Swyddog cyswllt dioddefwyr fel aelod craidd o'r panel sy'n cynnal cyswllt a chyfathrebu'n dda â dioddefwyr ac sy'n gallu cyflwyno eu barn a dymuniadau'n effeithiol
- Aelodau panel sy'n herio ei gilydd a chynnig barn wahanol am y plentyn
- Staff heddlu newydd yn cael eu gwahodd i baneli i sicrhau eu bod yn deall y cynllun a beth y gellir ei gynnig i'r plentyn a'r dioddefwyr – mae hyn yn rhoi mwy o hyder i blismyn a staff carchar i gynnig cosbau allan-o-lys fel opsiwn credadwy yn lle cyhuddiad swyddogol
- Plant yn cael mynediad at yr un ymyriadau â phlant sy'n destun gorchymyn llys, a gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyflym
- Ymyriadau i gefnogi ymatal, cadw plant yn ddiogel ac atal dioddefwyr rhag cael niwed pellach
- Llwybrau penodol i blant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol, sy'n darparu cymorth clir ac ymyriadau di-oed
- Lefel uchel o ymgysylltu â'r plant gan fagu perthynas o ddechrau'r broses asesu – mae hyn yn sicrhau bod llais y plentyn a'r rhieni neu ofalwyr yn cael ei ystyried pan fo'r panel canlyniadau ieuenctid yn ystyried pa gosb sydd fwyaf priodol
- Data, dadansoddi a gwerthuso ar gyfer pob cosb, gyda chanlyniadau positif ac ychydig iawn o blant yn dod yn ôl ar gyfer cosb bellach
- Trefniadau cadeirio panel cyson, sy'n rhoi ffocws ar y plentyn
- Polisi allan-o-lys sy'n disgrifio sut mae ystyriaethau amrywiaeth yn cael eu cwrdd a'u cysoni â pholisi amrywiaeth yr YJS.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, gwelsom berthynas gref ac ymddiriedol rhwng yr YJS a'r heddlu. Gwelsom enghreifftiau o adolygu a chryfhau cynlluniau i adlewyrchu tystiolaeth newydd, a nifer o ddulliau newydd yn cael eu treialu, gan gynnwys cynlluniau 'cyfaddef dim bai' (lle nad oedd yn ofynnol i blant gyfaddef trosedd er mwyn bod yn gymwys am gosb allan-o-lys), a llwybrau arallgyfeirio am droseddau tro cyntaf o fod ym meddiant cyffuriau dosbarth B.

Mae tuedd gynyddol i'r heddlu gynnig Canlyniad 22 sy'n rhoi opsiwn iddyn nhw gofnodi 'dim camau pellach' terfynol unwaith fydd plentyn yn cwblhau gwaith arallgyfeirio neu addysgol priodol. Rydym yn croesawu'r adolygiad o'r matrics difrifoldeb ieuenctid – a ddefnyddir i benderfynu a ddylid ystyried plant ar gyfer cosbau allan-o-lys – a chanllawiau diweddar yr YJB ar ddefnyddio Canlyniad 22. Gobeithio y bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau y gwneir defnydd mwy cyson o gosbau allan-o-lys a bod anghenion y plentyn hefyd yn cael eu cwrdd.

Roedd llawer o fyrddau rheoli YJS yn derbyn adroddiadau perfformiad a thueddiadau sy'n rhoi gwybodaeth sylfaenol am gosbau allan-o-lys. Roedd rhai'n comisiynu gwaith dadansoddi pellach i'w helpu i ddeall profiadau'r plant hyn yn well a sut yr oedd cosbau allan-o-lys yn cyfrannu at eu nod o leihau faint o blant sy'n ymuno a'r system cyfiawnder troseddol. Lle'r oedd hyn yn digwydd, gallent adnabod canlyniadau positif. Roedd agenda llawer o gyfarfodydd byrddau rheoli'n aml yn trafod, fel blaenoriaeth, amrywiaeth a'r nifer anghymesur o blant Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig. Fodd bynnag, gwelsom yn aml nad oedd hyn yn arwain at graffu mewnol ystyrlon o waith allan-o-lys a'i effaith ar anghenion amrywiol plant a'u dioddefwyr.

## Addysg, hyfforddiant a gwaith

Ym Mehefin 2022 cyhoeddwyd canfyddiadau arolygiad thematig o wasanaethau ETE yng ngwasanaethau YJS Cymru a Lloegr. Roedd yr arolygiad yn un ar-y-cyd ag Estyn yng Nghymru ac Ofsted yn Lloegr.[16]


Mae mynediad at ETE yn gwbl hanfodol i blant achosion YJS ac yn hollbwysig i'w cefnogi i atal troseddu neu aildroseddu. Fodd bynnag, roedd yr arolygiadau thematig a chraidd wedi nodi bylchau yn y ddarpariaeth a rhwystrau mawr i gyfranogiad plant mewn ETE.

Yn yr arolygiad thematig, roedd gormod o blant a phobl ifanc oedd yn hysbys i'r system cyfiawnder ieuenctid heb fynediad at ETE ansawdd uchel. Gwelsom enghreifftiau o wasanaethau YJS, ysgolion, colegau a gwasanaethau cymorth arbenigol yn gweithio'n galed i ddatrys hyn. Fodd bynnag, i lawer o blant mae cyfleoedd ETE yn parhau i fod yn amrywiol ac anghyson. Mae diffyg adnabod AAA, amserlenni rhan-amser dros gyfnodau hir, presenoldeb gwael oedd ddim yn cael ei herio, a chyfraddau uchel o waharddiadau ffurfiol ac anffurfiol yn amharu ar botensial ETE i wneud gwahaniaeth sylweddol.

Hyd yn oed pan oedd y plant hyn yn yr ysgol, roedd gormod o lawer ar amserlenni rhan-amser. Roedd bron i 29% o'r plant yn sampl achosion yr arolygiad thematig o 181 wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol a bron i ddau o bob tri phlentyn oedd dros yr oed ysgol statudol yn NEET. Roedd llawer o'r plant wedi cael eu gwahardd neu wedi datgysylltu o ETE ers tro byd. Nid oedd un plentyn wedi bod i'r ysgol am bum mlynedd, ac nid oedd yn anghyffredin gweld plant oedd heb ymgysylltu ag ETE ers dwy flynedd neu fwy.

[16] Arolygiaeth Prawf EM (2022). Arolygiad ar-y-cyd o wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn timau troseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/ete-thematic/

**Ffigwr 21: Grwpiau yn ein sampl o 181 o blant ar draws chwe llwyth achosion YJS**




Roedd rhwystrau sylweddol i gyfranogi mewn ETE. O'r 104 o wasanaethau YJS wnaeth ymateb i arolwg yr arolygiad thematig, dywedodd 68 fod gan dros 20% o blant yn eu llwyth achosion AAA neu anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, dywedodd 56 o'r 104 gwasanaeth YJS wrthym fod gan 20% o'u llwyth achosion EHCP neu, yng Nghymru, cynllun datblygu unigol (CDU).

Yn ein sampl achosion, roedd gan 36% o'r plant anabledd neu gyflwr niwro-amrywiol. Dangosodd ein harolygiadau o achosion:

- Mai plant ag EHCP / CDU oedd y grŵp oedd yn cael eu rheoli waethaf yn ein sampl. Yn aml iawn, roedd anghenion y plentyn yn cael eu colli wrth eu hasesu fel bod gan lai ohonynt gynlluniau effeithiol i ateb yr anghenion hynny. Nid oedd y gwasanaethau a dderbyniwyd wedi eu teilwrio felly i anghenion unigryw'r plant ac yn cael eu darparu'n wael neu'n anfoddhaol. Nid oedd adolygiadau'n ystyried problemau'r plant yn iawn na'n adnabod y newidiadau oedd angen eu gwneud i wella gwasanaethau i'r plentyn.
- Roedd gwahaniaethau hefyd yn y cymorth CDU / EHCP oedd ar gael i blant o darddiad ethnig cymysg, o'i gymharu â gweddill y cohort. Nid oedd y gwaith asesu a chynllunio'n ystyried yn effeithiol y rôl yr oedd ETE yn ei chwarae i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu ymhellach.
- Yn rhy aml (mewn 35% o achosion) roedd gwasanaethau i blant ag anableddau'n methu â darparu'r cymorth angenrheidiol i gadw'r plentyn mewn addysg. Yr anableddau mwyaf cyffredin gan blant yn y sampl oedd anableddau dysgu neu wybyddol eraill. Yn hanner yr achosion lle'r oedd anabledd wedi ei adnabod, roeddem wedi nodi bod angen cymorth ychwanegol ar y plentyn i wneud cynnydd addysgol, ac nid oedd hyn wedi cael ei ddarparu.

Er hyn, ym mhob un o'r gwasanaethau YJS a arolygwyd, nodwyd canlyniadau ETE amlwg neu gynnydd tuag at ganlyniadau y gellid ei briodoli i'r gwaith oedd yn cael ei ddarparu. Roedd y gwelliannau'n bennaf yn ymwneud ag ymgysylltu'n well ag ETE neu ddysgu sgiliau

cymdeithasol gwell. Fodd bynnag, dylai'r gwelliannau hyn fod yn sail ar gyfer cynnydd pellach yn hytrach na'n ganlyniad ynddynt eu hunain.

Gwelsom fawr ddim gwelliant o ran llythrennedd a rhifedd plant. Byddem yn hoffi gweld mwy o ffocws ar ddarparu gwasanaethau ETE sy'n eu helpu i gyflawni lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg – y safon sy'n ofynnol i ymuno â'r gweithle.

At ei gilydd, rydym yn parhau i fod yn bryderus am y diffyg darpariaeth i gwrdd ag anghenion ETE plant ôl-oed-ysgol dan oruchwyliaeth yr YJS, er i nifer o ardaloedd ddangos beth oedd yn bosib. Er enghraifft yn Hammersmith a Fulham roedd dros 90% o blant dros 16 oed mewn ETE.

# Adsefydlu

Adsefydlu yw'r cymorth y mae plentyn yn ei dderbyn i ddychwelyd i'r gymuned ar ôl dedfryd o garchar. Pwrpas gwasanaethau adsefydlu yw helpu'r plentyn i fod yn fwy pro-gymdeithasol ac i adeiladu ar ei gryfderau, cyfalaf cymdeithasol a'i adnoddau i'w helpu i gadw'n ddiogel a byw bywyd di-drosedd. Mae achosion plant a ddedfrydir i garchar ymhlith y rhai mwyaf cymhleth yn y sector cyfiawnder ieuenctid. Mae'r plant hyn yn fregus iawn yn aml, a llawer gydag anghenion ychwanegol. Yn ogystal â phryderon am eu diogelwch a'u lles, mae llawer hefyd yn cyflwyno risg i bobl eraill.

Yn 2021 cyflwynwyd safon adsefydlu i'n methodoleg arolygu fel y gallwn sgorio gwasanaethau troseddau ieuenctid unigol ar eu trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau adsefydlu effeithiol a chyson.

Wrth arolygu adsefydlu, ystyriwn bolisi a darpariaeth – a lle y mae achosion perthnasol – edrychwn hefyd ar ddarparu'r gwasanaethau. Os nad oes achosion adsefydlu yn y 12 mis cyn yr arolygiad, byddwn yn adolygu'r polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu ond ni roddir sgôr i'r safon. Mae'r safon adsefydlu'n cael ei sgorio ar wahân ac nid yw'n cyfrif tuag at sgôr cyffredinol yr YJS. Fodd bynnag, defnyddiwn ddyfarniad cyfyngus fel bod unrhyw YJS sy'n derbyn sgôr 'anfoddhaol' ar gyfer y safon adsefydlu'n methu wedyn ag ennill sgôr 'rhagorol' cyffredinol.

Disgwyliwn weld gwasanaeth adsefydlu ansawdd uchel ar sail tystiolaeth i blant sy'n gadael y carchar. Disgwyliwn weld gwasanaethau adsefydlu adeiladol, addas, amserol wedi eu personoleiddio i bob plentyn sy'n cynnwys llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a gofal iechyd. Rydym eisiau gweld anghenion amrywiol plant yn cael eu cwrdd a gwasanaethau YJS yn darparu adsefydlu sy'n ateb anghenion dioddefwyr a gwarchod rhai sy'n agored i risg, yn ogystal â sicrhau diogelwch y plentyn.

Ar sail ystadegau'r YJB ar gyfer 2021/22:


- Ar gyfartaledd, roedd tua 450 o blant yn y carchar ar unrhyw adeg yn y flwyddyn, sy'n ostyngiad o 19% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a'r nifer isaf ar record.
- Cynyddodd gyfran y plant oedd yn y carchar ar remand o 40% i 45% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, y gyfran fwyaf ers dechrau'r gyfres amser.
- Roedd gostyngiad o 23% yn nifer y plant du oedd yn y carchar o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, y tro cyntaf yn y gyfres amser i'r grŵp hwn weld lleihad mwy o flwyddyn i flwyddyn na phlant gwyn. Roedd plant du'n cyfrif am 28% o'r boblogaeth ieuenctid yn y carchar, a phlant gwyn yn cyfrif am 48%.
- Roedd 10% yn llai o gyfnodau carchar yn dod i ben o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu'r lleihad yn y boblogaeth garchar.
- Ar gyfartaledd, roedd plant yn treulio naw noson yn fwy ar remand na'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfran yr achosion ar remand oedd yn para tri mis neu fwy i fyny o 38% i 43% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Er bod llai o blant yn derbyn dedfryd o garchar, o dros 4,000 yn 2011/12 i 450 ar gyfartaledd erbyn 2021/22, mae darparu gwasanaethau effeithiol iddyn nhw'n gallu bod yn anodd.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd 63 o achosion adsefydlu ar draws 27 YJS.[17] O'r 63 o achosion hyn:

- roedd 48% yn blant mewn gofal gan yr awdurdod lleol
- roeddent i gyd yn 15+ oed
- roedd 94% yn fechgyn
- roedd 65% yn wyn.

**Ffigwr 22: Sgoriau polisi a darpariaeth adsefydlu, 2021/2022**




Ymddengys bod cyflwyno'r safon adsefydlu i'n rhaglen arolygu wedi cael effaith gadarnhaol. Gwelsom wasanaethau'n cynyddu eu ffocws ar adsefydlu ac mae llawer wedi adolygu eu polisïau adsefydlu neu wedi eu cyflwyno'n ddiweddar. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a arolygwyd dros gyfnod ein hadroddiad blynyddol bellach yn darparu ymyriadau adsefydlu effeithiol. Sgoriwyd y ddarpariaeth fel 'rhagorol' yn Wolverhampton, Bolton, Thurrock, Hammersmith a Fulham, County Durham, Caerefrog a Buckinghamshire. Mae digon o wasanaethau YJS wedi cael eu harolygu bellach i greu corff tystiolaeth o ymarfer effeithiol a chyhoeddwyd ein canllaw ymarfer effeithiol ar adsefydlu yn 2022.[18]

Roedd gan bron bob un YJS a arolygwyd bolisi adsefydlu ar wahân, neu'n datblygu un, yn hyrwyddo gwasanaeth adsefydlu ansawdd uchel, adeiladol ac wedi ei bersonoleiddio i'r plant. Lle'r oedd polisi'n effeithiol, roeddent yn ystyried pob agwedd ar 'adsefydlu adeiladol', sy'n cynnwys tair elfen graidd: gwaith achos adeiladol, y 5C, sef cryfderau, cyd-greu, cyfaddasu neu deilwrio, cysondeb a chydgysylltiedig, ac ymwybyddiaeth o hunaniaeth.

---

[17] 27 allan o 33 gwasanaeth YJS – nid oedd gan 5 YJS achosion adsefydlu perthnasol i'w harolygu.
[18] Arolygiaeth Prawf EM (2023). Canllaw ymarfer effeithiol ar gyfer adsefydlu. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2023/02/Resettlement-EP-v1.3.pdf

5

**Cryfderau:** yn adeiladu ar gryfderau'r plentyn drwy rymuso ac edrych i'r dyfodol

**Cyd-greu:** fel bo'r ymyriad yn un ystyrlon a chynhyrchiol i'r plentyn

**Cyfaddasu:** cydnabod y rhwystrau i newid ac ymateb i anghenion ac amrywiaeth yr unigolyn

**Cyson:** elfen hanfodol os yw perthynas weithio bositif i gael ei datblygu a'i chynnal

**Cydgysylltiedig:** yn cysylltu'r dysgu ar draws pob agwedd ar oruchwyliaeth ac integreiddio yn y gymuned

Mewn gwasanaethau YJS lle'r oedd y polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus, roedd trefniadau llywodraethu effeithiol a chydweithredol i oruchwylio gwaith adsefydlu. Nid oedd hwn yn faes ymyrryd oedd yn cael ei adael i'r YJS ei gydlynu ac roedd ymrwymiad gan bartneriaid i gefnogi gwaith aml-asiantaethol effeithiol. O ganlyniad, mae rhannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng gwasanaethau ac unigolion wedi datblygu'n sylweddol ers ein harolygiad thematig.

- Gwelsom dystiolaeth o gyswllt priodol â rhieni neu ofalwyr mewn 95% o'r achosion a arolygwyd.
- Roedd rhannu gwybodaeth rhwng yr YJS a'r carchar, i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel, wedi ei wneud yn foddhaol mewn 94% o achosion.

Roedd cynllunio da ar gyfer darpariaeth ETE mewn mwyafrif rhesymol o'r achosion a arolygwyd a gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio digonol mewn 41 allan o 56 o achosion perthnasol.

Awgryma hyn fod angen i rai gwasanaethau YJS gynllunio ar gyfer darpariaeth yn gynt yn y ddedfryd nag ar hyn o bryd a hefyd bod angen i bartneriaid ETE ymgysylltu â'r gwaith adsefydlu'n gynt yn y ddedfryd.

Roedd cynllunio da ar gyfer gofal iechyd fel rheol. Roedd digon o gynllunio mewn 49 o'r achosion perthnasol. Mae hyn yn golygu bod nifer dda o blant yn cael eu rhyddhau o'r carchar ar ôl asesu unrhyw anghenion gofal iechyd sydd ganddynt, a'r gwasanaethau'n ymwybodol o unrhyw ofal iechyd fydd ei angen yn y dyfodol, fel cymorth iechyd meddwl neu gyffuriau.

Roedd y risgiau a'r cymhlethdodau'n gysylltiedig â phlant y cohort hwn yn sylweddol. Yn ogystal â'r ffaith bod 48% o'r plant yn derbyn gofal awdurdod lleol, roedd 52% yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer MAPPA. Roedd gwasanaethau YJS yn rhoi sylw dyledus i reoli'r risgiau hyn a gwelsom sylw digonol yn cael ei roi i gadw'r plentyn yn ddiogel mewn 57 achos (92%) a chadw pobl eraill yn ddiogel mewn 55 achos (90%).

O'r achosion a adolygwyd, roedd gan 16 o blant un neu ddim sancsiwn blaenorol. Roedd y plant hyn wedyn yn mynd ymlaen i droseddu'n ddifrifol gan arwain at ddedfryd o garchar a heb gael dim neu fawr ddim cysylltiad â'r YJS cyn hynny. Mae'n bosib bod cyfle wedi bod yn y gorffennol i ddarparu gwasanaethau ataliol neu ymyrryd yn gynnar i'r plant hyn, ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ddadansoddi i roi dealltwriaeth well o siwrne'r plant tuag at droseddu'n ddifrifol.


Roedd 23 o blant wedi troi’n 18 oed yn y carchar. Er bod gan y rhan fwyaf o’r polisïau a welsom drefniadau da ar gyfer y pontio hwn, awgryma ganfyddiadau ein harolygiadau o wasanaethau oedolion na chefnogir y trefniadau pontio gan adnoddau gwasanaethau prawf digonol. Felly dylai’r gwasanaethau YJS ystyried gweithio â’u partneriaid ar lefel aml-asiantaethol wrth edrych ar bontio o wasanaethau ieuenctid i rai oedolion, a sicrhau bod yr holl wybodaeth am anghenion adsefydlu wedi ei chynnwys mewn unrhyw gynllunio ar gyfer eu rhyddhau fel oedolyn.

At ei gilydd, mae’r gwasanaethau YJS wedi gweithredu ar ganfyddiadau’r arolygiad thematig ac yn gweithio’n galed i wella cyfleoedd bywyd i’r cohort o blant cymhleth a bach hwn.

# Amrywiaeth

Yn dilyn diwygio ein safonau arolygu ym mis Gorffennaf 2021, cyfeiriwn yn llawer mwy penodol at amrywiaeth ym mhob agwedd ar ein harolygiadau ieuenctid. Yn ein harolygiadau, ystyriwn effeithiolrwydd strategol a sefydliadol ac ansawdd yr ymarfer. Chwiliwn am dystiolaeth fod yr YJS yn adnabod ac ymateb i amrediad eang o anghenion amrywiaeth ym mhob cam o'r broses cyfiawnder ieuenctid. Ar lefel strategol, mae hyn yn cynnwys cadarnhau bod gweledigaeth a strategaeth yr YJS yn rhoi sylw i ystyriaethau amrywiaeth a chyflwyno amcanion cydraddoldeb, bod dull bwriadol, strategol a gwybodus o gwrdd ag anghenion amrywiol a bod y gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn foddhaol a darparu'r sgiliau i gwrdd ag anghenion amrywiol. Yn ein harolygiadau achos, disgwyliwn weld dadansoddi boddhaol o faterion amrywiaeth yn y cam asesu, cynllunio sy'n ystyried materion amrywiaeth a gwasanaethau sy'n ystyried materion amrywiaeth y plentyn. O ganlyniad, rhoddwn lawer mwy o ffocws ar amrywiaeth a diffyg cymesuredd.


**Ffigwr 23: Plant wedi cael rhybuddiad neu ddedfryd yn ôl tarddiad ethnig, blynyddoedd yn diweddu Mawrth 2012 tan 2022[19]**




Gallwn weld bod canran y plant du a tharddiad ethnig cymysg a dderbyniodd rybuddiad neu ddedfryd wedi cynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf, gyda'r ganran o blant gwyn wedi lleihau. Gall anghenion amrywiol plentyn fod yn niferus a chymhleth. Mae'n hanfodol felly bod gwasanaethau YJS yn ystyried anghenion amrywiol plant ym mhob agwedd ar eu gwaith gan drafod a deall unrhyw ddiffyg cymesuredd yn eu llwythi achosion. Mae gan lawer o blant dan oruchwyliaeth yr YJS ddwy nodwedd a warchodir neu fwy, ac os am weithio'n effeithiol gyda phlant, rhaid i'r YJS adnabod ac ymateb yn effeithiol i'r agweddau hyn ar fywyd plentyn.

[19] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2023). Ystadegau cyfiawnder ieuenctid 2021-22 ar gyfer Cymru a Lloegr. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2021-to-2022. Lle'r oedd tarddiad ethnig yn hysbys, mae'r cyfrannau wedi cael eu cyfrifo. Am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2022, roedd tarddiad ethnig yn anhysbys ar gyfer 4% o blant a dderbyniodd rybuddiad ieuenctid neu ddedfryd.

**Ffigwr 24: Plant wedi cael rhybuddiad neu ddedfryd yn ôl rhywedd, blynyddoedd yn diweddu Mawrth 2012 tan 2022**[20]





Mae merched yn cyfrif am gyfran lawer is o achosion YJS; fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd mae nifer y merched yn y llwyth achosion yn anghymesur o uchel (er yn cydnabod bod y niferoedd yn isel fel arfer). Yn ôl llawer o wasanaethau YJS, mae nifer y merched sy'n dod i gysylltiad â'u gwasanaeth lleol yn cynyddu. Er bod y niferoedd yn isel, mae angen rhoi mwy o sylw i anghenion merched ac roedd gan rai gwasanaethau a arolygwyd ymarfer clir ar sail rhywedd. Mae angen deall yn well a rhoi mwy o sylw i'r amgylchiadau unigryw sy'n arwain at ferched yn troseddu, i sicrhau bod gwasanaethau'n ateb eu hanghenion.

Mae adran benodol ar amrywiaeth ym mhob adroddiad arolygu erbyn hyn, yn crynhoi ein canfyddiadau, a chyfeiriwn drwy gydol yr adroddiad at ymateb cyffredinol yr YJS at amrywiaeth.

[20] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2023). Ystadegau cyfiawnder ieuenctid 2021-22 ar gyfer Cymru a Lloegr. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2021-to-2022. Lle'r oedd rhywedd yn hysbys. Roedd rhywedd yn anhysbys ar gyfer tua 470 (3%) o blant a dderbyniodd rybuddiad neu ddedfryd.

**Ffigwr 25: Nodweddion y plant mewn llwythi achosion YJS**




Roedd bron i 30% o'r achosion llys a arolygwyd yn blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, gyda thraean o'r rhain yn derbyn gofal y tu allan i'r ardal.

Roedd gan 42% o'r plant yn yr achosion llys a arolygwyd ryw fath o anabledd. Gan amlaf anabledd dysgu o ryw fath oedd hyn, ond roedd lefelau sylweddol o salwch meddwl hefyd. Yn ddigon pryderus, gwelsom hefyd fod y cyfraddau o blant mewn gofal a phlant ag anableddau yn sylweddol uwch ymhlith plant a oedd yn cyflawni'r troseddau mwy difrifol oedd yn mynd i'r llys. Mae plant du a lleiafrifol ethnig yn fwy tebygol o fod yn achosion gorchymyn llys yn ein sampl arolygu, gan gyfrif am bron i chwarter yr achosion a arolygwn.

## Plant mewn gofal

Mae plant mewn gofal a gyda phrofiad o ofal ymhlith rhai o'r plant mwyaf bregus y mae'r YJS yn gweithio gyda nhw. Mae llawer o wasanaethau YJS yn ymdrechu'n rhagweithiol i ddeall a datrys problemau plant mewn gofal sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Gwelsom enghreifftiau o ardaloedd yn gweithio gyda chartrefi preswyl i wreiddio arferion adferol, neu o weithio'n agos â phartneriaid, gan gynnwys y gwasanaethau plant, i osgoi troi plant mewn gofal yn droseddwyr yn ddiangen.

Ar y cyfan, awgryma arolygiadau 2021/2022 mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd yn ansawdd y gwaith achos ar gyfer plant mewn gofal a rhai nad ydynt mewn gofal, ar gyfer gorchmynion llys ac achosion allan-o-lys. Fodd bynnag, fel y llynedd, mae'r sampl yn gymharol fach.

O ran ansawdd y gwaith cynllunio, roedd ansawdd yr ymarfer i blant mewn gofal yn amrywio, yn enwedig i gadw'r plant hyn yn ddiogel neu gadw eraill yn ddiogel rhag cael niwed. Yn aml iawn mae nifer o wahanol asiantaethau neu unigolion yn gweithio gyda phlant mewn gofal ac mae'n hanfodol felly bod ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol a chydlynus ag ymarferwyr ac asiantaethau eraill, a bod cynlluniau'n cydlynu'r gwaith hwn.

Roedd gan y gwasanaethau YJS oedd yn perfformio'n effeithiol ar hyn bartneriaethau da gyda'r gwasanaethau plant a rhai darparwyr gofal preifat. Roedd ganddynt hefyd fyrddau rheoli oedd yn deall eu rôl o greu partneriaethau llwyddiannus a sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r adnoddau priodol i adnabod a chefnogi anghenion plant mewn gofal.

## Tarddiad ethnig

**Enghraifft ymarfer da Buckinghamshire**

Pan gynhaliwyd ein harolygiad, roedd plant Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig wedi eu gorgynrychioli'n sylweddol yn llwyth achosion yr YJS. Roedd deall a rhoi sylw i'r diffyg cymesuredd hwn yn flaenoriaeth i'r YJS a'r bartneriaeth. Roedd strategaeth yr YJS yn canolbwyntio ar ateb anghenion amrywiol plant ar y cyfle cyntaf posib ac yn hyrwyddo'r dull hwn ar draws y bartneriaeth.

I gydnabod y cyfraddau gwahardd uwch ar gyfer plant lleiafrifol ethnig, comisiynwyd Spark2Life i weithio gyda phlant pan oedden nhw'n pontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Roedd yr YJS hefyd yn cynnig cyngor i ddarparwyr eraill i ystyried eu hymarfer, a phartneriaid yn cydnabod y rôl yr oedd yr YJS yn ei chwarae mewn tynnu sylw at ddiffyg cymesuredd a hyrwyddo ymarfer adferol sy'n deall trawma.

Roedd yr YJS wedi recriwtio'n benodol er mwyn hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu fel ei fod yn adlewyrchu cymuned blant yr YJS yn well.

Roedd cynllun datblygu'r gweithlu wedi cael ei ddatblygu mewn ymateb i ganfyddiadau sicrhau ansawdd gan roi cyfleoedd dysgu rhagorol i staff. Roedd yr hyfforddiant yn effeithiol i gefnogi staff i weithio ag amrediad amrywiol o blant a chwrdd ag anghenion neilltuol a phenodol.

Roedd amrywiaeth ethnig y bwrdd hefyd yn adlewyrchu'r gymuned.

Ar y cyfan, gwelsom ddadansoddiad eithaf cyson o faterion amrywiaeth plant ar draws y gwaith asesu, cynllunio a darparu gwasanaeth, ar gyfer achosion llys ac allan-o-lys. Fodd bynnag, ar gyfer gorchmynion llys, dylid ystyried anghenion amrywiaeth yn gyson yn ystod y broses adolygu.

Roedd yr ymateb i nodweddion a warchodir yn amrywio ar draws y gwasanaethau YJS a arolygwyd dros gyfnod yr adroddiad blynyddol hwn:

- Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau YJS yn deall arwyddocâd anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu a'r problemau a gyflwynir i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid o'r herwydd, ac mae gwasanaethau yn eu lle i adnabod a chefnogi anghenion y plant.
- Mae anghenion iechyd meddwl plant yn ffocws gan wasanaethau YJS, a'r rhan fwyaf yn darparu ymyriadau a chymorth.
- Mae gan rai gwasanaethau YJS fynediad chwim at asesiadau gan wasanaethau niwroddatblygiad aml-ddisgyblaethol arbenigol iawn. Gwelsom enghreifftiau positif o ymarfer yn Swindon a Chaerefrog lle'r oedd plant gydag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu wedi cael eu hasesu ac wedi derbyn 'pasbortau cyfathrebu'. Roedd y rhain yn hel gwybodaeth gymhleth at ei gilydd mewn fformat clir a hygyrch yn disgrifio'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu â phlentyn. Roedden nhw ar gael i weithwyr o wahanol wasanaethau oedd yn gweithio â'r plentyn.
- Nid oedd gwybodaeth am rywioldeb a chrefydd plentyn yn cael ei gofnodi yng nghofnod achos yr YJS bob tro gan godi'r cwestiwn a oedd y gwasanaethau YJS yn ystyried a thrafod y materion hyn.

- Mewn bron i dri chwarter o'r achosion adsefydlu, nid oedd rhywioldeb wedi ei gofnodi'n glir. O'r herwydd nid oedd dealltwriaeth dda o effaith y nodwedd a warchodir ar blentyn yn y carchar.

Gwelsom fod angen i dimau arweinyddiaeth roi arweiniad clir i staff ar beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran amrywiaeth mewn ymarfer cyfiawnder ieuenctid. Gwelsom ffocws cynyddol ar roi sylw i ddiffyg cymesuredd; fodd bynnag nid oedd gan bob gwasanaeth strategaeth neu ganllawiau ar amrywiaeth i staff. Mae hyn yn hanfodol fel bod staff yn gwybod sut beth yw ymarfer amrywiaeth da.

Gwelsom nifer gynyddol o wasanaethau oedd â chynllun penodol yn ei le i roi sylw i ddiffyg cymesuredd, ac o ganlyniad roedd mwy o staff yn deall pwysigrwydd yr agwedd hon ar eu gwaith.

Defnyddiai'r fwyaf o wasanaethau adroddiadau data i ddadansoddi eu proffiliau o blant, er heb gynnwys yr amrediad llawn o anghenion amrywiaeth bob tro. Nid yw pob polisi a gweithdrefn yn rhoi sylw digonol i amrywiaeth a'i bwysigrwydd i ymarfer. Er enghraifft nid yw polisïau ar achosion allan-o-lys bob tro'n disgrifio sut i ystyried ac ymateb i faterion amrywiaeth wrth benderfynu ar y gosb iawn i blentyn. Mewn nifer fach o wasanaethau, nid oedd penderfyniadau ar gosbau allan-o-lys bob tro'n ystyried gwybodaeth gan y plentyn a'r rhieni neu ofalwyr. O'r herwydd efallai nad oes dealltwriaeth lawn o faterion amrywiaeth pan wneir y penderfyniad ac nid yw anghenion y plentyn felly'n cael eu cwrdd, gan amharu ar lwyddiant unrhyw gamau i'w hatal rhag aildroseddu.

Gwnaethom argymhellion ar wella'r gwaith amrywiaeth, yn y sefydliad ac o ran ymarfer, mewn 20 allan o'r 33 arolygiad a drafodir yn yr adroddiad blynyddol hwn.

Ym mis Hydref 2021 cyhoeddwyd adolygiad thematig o brofiadau bechgyn du a tharddiad ethnig cymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid. O arolygiadau a wnaed ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd gwasanaethau YJS yn canolbwyntio mwy ar ddiffyg cymesuredd (gor-gynrychiolaeth o blant Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig yn y system gyfiawnder). Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau bellach wedi darparu hyfforddiant ar ddeall diwylliant i'w staff, sydd wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r heriau ychwanegol a wynebir gan rai grwpiau o blant, a'r rhwystrau strwythurol sy'n gallu amharu ar eu cynnydd. Gwelsom fwy o dystiolaeth bod staff yn gallu trafod amrywiaeth gyda phlant a beth y mae hyn yn ei olygu iddyn nhw, er enghraifft eu treftadaeth ddiwylliannol, tarddiad ethnig a phrofiadau o wahaniaethu. Mae'r rhan fwyaf yn dadansoddi data i adnabod unrhyw ddiffyg cymesuredd a gwahaniaethu yn eu hardaloedd lleol.

Nid oes bob tro ddigon o gynrychiolaeth o gymunedau lleol mwy amrywiol ar lefel bwrdd, er bod y staff ar y cyfan yn gynrychiadol o'u cymuned leol. Mae rhai gwasanaethau YJS yn defnyddio dull targed o recriwtio i annog ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol. Mae rhai gwasanaethau YJS wedi cael trafferth recriwtio gwirfoddolwyr sy'n gynrychiadol o'r gymuned leol. Lle y bu'n anodd gwneud hyn, gwelsom enghreifftiau o ddefnyddio cyrff trydydd sector i ddarparu staff neu wirfoddolwyr sy'n rhannu'r un tarddiad ethnig â'r plentyn.

## Cyfranogiad plant a'u rhieni neu ofalwyr

Yn yr Arolygiaeth, rydym yn ymroddedig i dderbyn adborth gan blant a'u rhieni neu ofalwyr ar y gwasanaeth a gawsant gan eu YJS lleol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut orau i wneud hyn ac yn cynnig arolygon testun, cyswllt ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed beth sydd gan blant a'u rhieni neu ofalwyr i'w ddweud. Edrychwn hefyd ar y gwaith y mae'r YJS yn ei wneud i ymgorffori profiadau a barn plant yn natblygiad y gwasanaethau, ac arolygwn hyn fel rhan o'n safonau.

| Dros gyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, fe wnaethom siarad â: | |
|---|---|
|  | 138 o blant |
|  | 34 o rieni |
|  | 2 o ofalwyr |

Roedd bron yr holl blant a rhieni / gofalwyr wnaeth ymateb yn deall amcanion yr YJS oedd yn goruchwylio eu plentyn. Roedd 158 allan o 160 o'r ymatebwyr[21] hefyd yn cytuno bod gan y gweithiwr YJS y sgiliau iawn i weithio â'r plentyn, a'r rhan fwyaf o'r plant yn bositif am eu gweithiwr YJS.

Dangosodd lawer o'r ymatebion ymroddiad gwirioneddol y staff cyfiawnder ieuenctid i'r plant.

Roedd sylwadau a wnaed gan blant yn ein harolygon yn cynnwys:

> *"Y peth gorau am fy ngweithiwr YJS oedd nad oedd yn gwneud i fi deimlo fel person drwg ac yn gwrando arna i."*

> *"Mae fy ngweithiwr YJS yn wych, mae'n gwybod ei stwff ac ar fy ochr i".*

> *"100 y cant. Roedd fy rheolwr achos yn wych. Roedd yn dda am wrando a bob amser efo agwedd bositif. Roedd yn frwdfrydig a bob amser yn gwenu. Roedd yn dda am herio, roeddwn yn hoffi hynny."*

> *"Ydi, gant y cant. Mae hi bob amser yno i fi. Dw i wedi bod yn isel iawn; weithiau ni allaf fforddio mynd i'r coleg ond roedd hi yno i fi. Daeth i fy nôl i a mynd â fi i'r coleg. Roedd yn bwysig i fi ac roeddwn i'n bwysig iddi hi. Pan fydd gen i broblemau, mae fy ngweithiwr i yno. Mae'n achub fy ngham a phan oedd gen i broblemau yn y coleg, roedd yno i helpu."*

Roedd rhieni a gofalwyr hefyd yn bositif ar y cyfan ac, mewn un sylw, disgrifiodd riant yr ymddiriedaeth rhyngddynt a'r gweithiwr YJS a'u bod yn ddiolchgar am yr help i ddod o hyd i le mewn coleg. Disgrifiwyd yn aml fod gweithwyr YJS yn gallu tawelu meddyliau'r rhieni.

Pan ofynnwyd a oedd y plentyn wedi gallu derbyn y gwasanaethau a'r cymorth iawn i'w helpu i beidio â mynd i helynt, roedd yr ymateb eto'n bositif iawn. O'r 162 a atebodd y cwestiwn, dywedodd 150 'do'. Roedd datganiadau gan y plant yn cynnwys:

[21] Ni atebodd y cyfranogwyr i gyd y cwestiwn hwn

*"Roedden ni'n cael sgwrs a phaned o de ac yn siarad am sut oedd pethau. Roedd yn rhoi cyngor da i fi ond yn llym pan oedd angen bod. Gallwn ofyn am help pan oedd angen. Dw i'n mynd i stiwdio gerdd i rapio a chwarae'r piano – nhw [yr YJS ac asiantaethau partner eraill] a fy helpodd i wneud hyn. Dw i hefyd yn paffio. Bu'n rhaid i mi wneud gwasanaeth cymunedol a chefais help ganddyn nhw gyda chymdeithas dai, a dw i'n dal i weithio gyda nhw. Cefais help i dderbyn cymorth iechyd meddwl. Bu farw fy nhad a chefais gymorth profedigaeth ganddyn nhw. Dw i'n dal i'w dderbyn. Cefais help gyda phopeth oedd ei angen arna i. Roedd yn barod i wneud unrhyw beth: dw i'n colli gweithio efo hi."*

*"Wrth fy modd efo miwsig – isio bod yn artist – mi wnes i rap. Dw i'n edrych ar fywyd yn wahanol. Cefais help gyda fy iechyd meddwl. Dw i'n gwneud dipyn ar y funud – cyrsiau hylendid bwyd, gweithio gyda stiwdio gerdd a mynychu Gyrfa Cymru – a roddodd gymhelliad i fi wneud pethau a pheidio â brifo fy hun."*

Roedd y rhieni gan amlaf hefyd yn bositif am dderbyn gwasanaethau. Roedd enghreifftiau'n cyfeirio at help a chymorth i wella presenoldeb yn yr ysgol a derbyn adnoddau arbenigol fel gwasanaethau iaith a lleferydd.

Roedd nifer lai o rieni'n llai positif. Fel arfer roedd y pryderon am ddisgwyl derbyn gwasanaeth, fel atgyfeiriad i wneud gwaith celf neu chwaraeon, oedd yna ddim yn digwydd.

Pan ofynnwyd a oedd y llefydd lle'r oedd yr YJS yn gweld y plant yn ddiogel a hawdd eu cyrraedd, o'r 163 a atebodd, dywedodd 159 eu bod. Roedd yr atebion yn awgrymu bod staff yr YJS yn hyblyg am ble i weld y plant ac yn barod i ddod i ble'r oedd y plant yn byw, neu ddefnyddio rhywle niwtral fel caffi. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon ag ansawdd adeiladau'r YJS, gan ddweud eu bod yn ddiogel ac yn aml yn rhoi cyfle i wneud gweithgareddau.

Fodd bynnag roedd nifer fach o sylwadau negyddol am y llefydd lle'r oedd gweithwyr yr YJS yn gweld y plant. Fel arfer roedd hyn yn ymwneud â'r ffaith ei bod yn amlwg i eraill eu bod yn mynychu adeiladau i blant oedd wedi troseddu. Dywedodd rai nad oedden nhw'n teimlo bod y swyddfa'n lle diogel.

Mae ein gwaith i holi a chadarnhau barn plant a'u rhieni neu ofalwyr yn parhau i esblygu. Mae methodoleg grwpiau ffocws a fideos gwybodaeth yn cael eu datblygu i annog plant i ymgysylltu â ni ar arolygiadau yn y dyfodol. Ceisiwn hefyd sicrhau bod gan blant a'u rhieni neu ofalwyr gyfle i ddylanwadu ar, a chyfrannu at ddatblygu, ein rhaglen arolygu ieuenctid nesaf.

# Atodiad 1: Terminoleg

O dan *Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998* mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) aml-asiantaethol. Daeth y Ddeddf i rym yn 2001 ac ers hynny mae timau YOT wedi darparu gwasanaethau i blant a droseddodd ar draws Cymru a Lloegr. Wrth i dimau YOT dyfu, ail-enwyd llawer ohonynt yn wasanaethau troseddau ieuenctid i adlewyrchu eu maint a chwmpas eu gwaith. Yn fwy diweddar, daeth y term gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (YJS) yn gyffredin ac mae'n cael ei weld fel teitl sy'n adlewyrchu'n well y gwaith a wneir gyda phlant, rhieni a gofalwyr, dioddefwyr a chymunedau. Yn yr adroddiad hwn defnyddiwn YJS yn bennaf oni bai y cyfeiriwn at ardal leol benodol sy'n defnyddio YOT, YOS neu derm arall i ddisgrifio eu gwaith. Defnyddiwn y term YOT hefyd lle y mae'n gyson â'n cyhoeddiadau blaenorol.